YR YMOFYNYDD.

RHIF 74.] HYDREF, 1853. [CYF. VI.

"PROFWCH BOB PETH; DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

Mewn cyhoeddiad a broffesa fod yn RHYDD ni ellir disgwyl i ni fod yn atebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr."--GOL.

SYLWADAU AR GYTHREULIAID.

(*Parhad o tud.* 208.)

MR. YMOFYNYDD,—Braidd y gall dynion, nad ydynt yn adnabyddus a hanes y byd yn flaenorol i ddyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist, ddirnad mor wael a distadl ydoedd syniadau y dynion a gyfrifid ddoethaf, am Dduw; neu, a dywedyd yn fwy cywir am y duwiau, yr rhai ydoedd eu dychymmygion wedi eu ffurfio. Yr ydoedd y Paganiaid yn credu fod y byd yn dduw, am ei fod yn cael ei dreiddio a'i fywiocau gan sylwedd byw a deallus. Gan mai gwres yr haul yn yr haf sydd yn peri i'r ddaear darddu a thyfu, yr ydoedd yn cael ei ystyried yn un o'r prif dduwiau; ac ar ol marw dynion, yr oeddent yn cael eu claddu oll a'u traed tua'r dwyrain, am mai oddiyno y mae yr haul, yr hon sydd yn adfywio holl natur yn ymddangos yn dyfod; ac ar ol yr arferiad baganaidd hon y mae dynion hyd heddyw yn cael eu claddu a'u traed tua chodiad haul. Yr oeddent yn credu hefyd fod y lloer a'r ser oll yn dduwiau. Mae Balbus, y Stoic, yn dywedyd yn ail lyfr Cicero ar natur y duwiau—"*Fod y byd yn dduw ac yn drigfa y duwiau.*" Y rhai hyn oeddent y duwiau cyntaf yng ngolwg pob cenedl eilunaddolgar, ac ystyrid hwynt yn dragywyddol a goruchaf. Maent yn cael eu gwahaniaethu oddiwrth y duwiau ereill, trwy gael eu galw, "*Y duwiau naturiol.*" Yr ydoedd hyd y nod ddynion mor ddiweddar a Philo * ac Origen, yn barnu fod y ser yn eneidiau anllygredig ac anfarwol.

Yr ydoedd y Paganiaid yn credu mewn math o ysbrydion, yn y canol rhwng "y duwiau naturiol" a dynol-ryw, y rhai a alwent *daimones*, cyfranwyr drwg a da i ddynol-ryw. Mae eu henwau yn dynodi eu swydd, a'r gallu a'r awdyrdod y maent wedi eu derbyn oddiwrth y duwiau nefol, sef *cyfranwyr* oddiwrth y gair daiô cyfrannu. Yr ydoedd llawer yn barnu nad ydoedd y duwiau nefol yn ymyrraeth dim a llywodraeth y byd hwn; ond eu bod wedi rhoddi llywodraeth y byd a'i drigolion, i'r îs-dduwiau hyn. Dyma y modd

* Philo yr Iuddew ydoedd hwn, ac nid fflangellydd Gweinidogion yr Undodiaid yn yr *Ymofynydd.*

y daethant yn wrthrychau addoliad y Paganiaid. Dywed Celsus y meddyg, un o elynion pennaf Crist'nogrwydd yn yr ail ganrif o oed Crist, "*Os nad ydyw eilunod ddim yn y byd, pa niwaid all fod i uno yn y gwleddoedd cyhoedd?* Os *daemoniaid* ydynt, yna y mae yn sicr eu bod hwy yn dduwiau, yn y rhai yr ydym i ymddiried, ac i'r rhai y dylem aberthu a gweddio arnynt i'w dwyn yn gymmodlawn." I'r *daemoniaid* hyn, neu fel y mae y gair wedi ei gyfieithu yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd, *cythreuliaid*, yr oedd y paganiaid yn aberthu ac nid byth i'r duwiau nefol. A meddwl pur, a salmau, ac a mawl, yr ydoedd bodau nefol yn cael eu haddoli, ac nid ag aberthau nag offrymmau o un math. Cofied y darllenydd fod y rhan amlaf o lawer yn meddwl fod dyn yn cael ei wneuthur i fynu o ddwy natur—un yn ddaearol a marwol, a'r llall yn nefol ac anfarwol: sef, corph marwol, ac eneid anfarwol. Yr oeddent o'r farn fod y dynion oeddent wedi gwneuthur gwasanaeth mawr i'r byd yn eu dydd, yn cael eu gwneuthur, neu fod eu heneidiau anfarwol hwynt yn cael eu gwneuthur yn dduwiau ar ol angau. Dyma y fath un ydoedd Iau *(Jupiter)*, Sadwrn, Mawrth, Ceres, Gwener, a phob duw a duwies arall y byddid arferol i aberthu iddynt. Mab Sadwrn ac Ops ydoedd Iau, ganwyd ef yn Ynys Creta.* Er ei fod yn drech nag un o honynt hwy, ar ei ben ei hunan, etto nid oedd yn alluog i wynebu tri o honynt ar y tro, fel yr ymddengys oddiwrth yr ofn oedd arno i gael ei ddala a'i rwymo gan *Neptune*, *Juno*, a *Minerva*; oddiwrth greulondeb y cyfryw rai y cafodd ei waredu trwy gynnorthwy *Briareus* a'i gan braich.

Dywed Plutarch fod—"eneidiau dynion da, yn ol natur ddwyfol a chyfiawnder, yn cael eu derchafu i ranc cythreuliaid *(daemons)*, ac o fod yn gythreuliaid, os y byddant wedi eu puro yn iawn, eu bod yn cael eu derchafu i fod yn dduwiau, nid yn ol un gosodiadau dinasyddol, ond yn ol rheswm cywir."

Dywed yr un awdwr hefyd,—"Fod Isis ac Osiris wedi cael eu cyfnewid o fod yn gythreuliaid i fod yn dduwiau fel y cafodd Hercules a Bacchus yn ol llaw, gan derbyn anrhydedd unedig duwiau a chythreuliaid."

Mae Celsus yn gwatwar y Cristionogion o dan eu dyoddefaint. "*Nid ydyw eich cythraul chwi, neu fel yr ydych chwi yn ei alw, Mab Duw, yn rhoddi dim cymmorth i chwi.*"

Mae Herodotus, pan yn llefaru am y Persiaid, yn dywedyd—"*Nid oes ganddynt na delwau, temlau, nag allorau; yr hyn ydwyf fi yn farnu ydyw eu*

* Pan yr ydoedd Sadwrn yn ameanu dinystrio ei feibion, naill ai yn ol ei gytundeb a'i frawd Titan, neu rhag eu hofn, gan ei bod yn y tyngedfenau, y byddai iddo gael ei yrru o'i deyrnas gan ei feibion; fe guddiodd Rhea, neu Ops, neu Cybele ei wraig ei mhab Iau, yn Creta mewn ogof ym mynydd Dacte, yr hwn sydd yn agos i fynydd Ida; ac a archodd i'r Curetes, nen y Coribantes, neu y Dactili gweinyddwyr ei chysegr i wneuthur mawrstwr a symbalau, a tharianau pres oddiamgylch i'w gawell rhag ofn i'w lefau ddangos i'w dad pa le yr ydoedd. Dywedir hefyd fod brenhin ar yr ynys hon a elwid Milessus, dwy ferch yr hwn a borthasant Iau a llaeth gafr a mêl; oddiwrth hyn y mae y chwedl, mai gafr o'r enw Amalthea, a'r gwenyn a gynhyrfwyd gan symbalau y Curetes ydoedd mamaethod Iau, ac am y caredigrwydd hynny i'r afr gael ei throsglwyddo gan Iau i blith y ser, i'w chorn i gael ei roddi i'r gwyryfon ei famaethod, a'r gallu hyn ynddo, y llifai cyflawnder o beth bynnag a ddymunent allant o'r corn hwnnw iddynt; tra nad ydoedd y gwenyn o'r blaen ddim yn gyfrwysach na chylion ereill, iddynt am eu porthiant gael cyfrwystra ychwanegol." Fe allai mai dynwared y Curetes a'u symbalau y mae dynion yn ein hoes ni yn ei wneuthur wrth ffusto pedillau prês, &c., pan y byddo y gwenyn yn codi. Anhawdd gwybod pa ddaioni sydd yn y gwaith.

rheswm, yw, nid ydynt yn credu fel y Groegiaid, fod y duwiau o hiliogæth ddynol."

Mae Philo Byblius yn sicrhau i ni yn bendant—"Fod y Phenisiaid a'r Aifftiaid, oddiwrth y rhai y derbyniodd pobloedd ereill yr arferiad hwn, yn ystyried y rhai hynny ym mhlith y duwiau pennaf, y rhai oeddent wedi gwneuthur gwasanaeth dda i'r hil ddynol, a'u bod wedi adeiladu colofnau a delwau iddynt, ac wedi cysegru gwleddoedd iddynt."

Awn yn awr i chwilio beth oedd golygiadau yr Iuddewon am dduwiau y Paganiaid. Yr oedd ysgrifenwyr yr Hen Destament yn desgrifio eu duwiau hwynt megis yn feirw, er y gwyddent yn ddigon da, fod y paganiaid yn addoli ser ac elfennau natur, am mai i'r fath yr oedd yr addoliad cyhoedd yn cael ei dalu. Gellir casglu hyn oddiwrth Deut. xxvi. 14,—"Ac ni roddais o hono dros y marw;" hynny ydyw, nid aberthir ran o hono i eneidiau dynion wedi marw, neu gythreuliaid, duwiau y paganiaid. Mae y rhai oeddent wedi bwyta pethau wedi eu aberthu i eilunod yn yr anialwch, yn cael eu cyhuddo yn Ps. cvi. 28, fel hyn—"Ymgysylltasant hefyd a Baal-peor, a bwytasant ebyrth y meirw." Cydmarer y geiriau yma a Num. xxv. 1, 2, 3,—"A thrigodd Israel yn Sittim; a dechreuodd y bobl odinebu gyda merched Moab. A galwasant y bobl i aberthu i'w duwiau hwynt; a bwytaodd y bobl, ac addolasant eu duwiau hwynt. Ac ymgyfeilliodd Israel â Baal-peor."

Mae Isaiah yn edliw i'r rhai oeddent yn ymofyn ac oraclau y paganiaid, eu bod yn gofyn i'r meirw beth a ddigwydd i'r byw, Is. viii. 19,—"A phan ddywedant wrthych, Ymofynwch a'r swyddogion ac a'r dewiniaid, y rhai sydd yn hustyng, ac yn sibrwd: onid a'u Duw yr ymofyn pobl, dros y byw at y meirw? Dylid sylwi yma fod yr ysgrifenwyr yn darlunio yr eilunod y peth oeddent mewn gwirionedd, ac nid peth oedd y paganiaid yn tybied eu bod hwynt. Mewn cyferbyniad i'r rhai hyn yr ydoedd yr hen brophwydi yn galw Jehofah yn Dduw *byw*, Deut. v. 26,—"Oblegid pa gnawd oll *sydd* yr hwn a glybu lais y Duw *byw* yn llefaru o ganol y tân, fel nyni, ac a fu fyw?" Jos. iii. 10,—"Wrth hyn y cewch wybod fod y Duw *byw* yn eich mysg chwi," &c. 1 Sam. xvii. 26,—"Canys pwy yw y Philistiad dienwaededig hwn, pan waradwyddai efe fyddinoedd y Duw *byw*?" 2 Bren. xix. 4,—"Fe allai y gwrendy yr Arglwydd dy Dduw holl eiriau Rabsaceh, yr hwn a anfonodd brenhin Assyria ei feistr ef i gablu y Duw *byw*," Jer. x. 10,—"Eithr yr Arglwydd yw y gwir Dduw, efe yw y Duw *byw*, a'r Brenhin tragywyddol." Dan. vi. 26,—"Oherwydd efe sydd Dduw *byw*, ac yn parhau byth."

Mae yr Iuddewon a gyfieithasant yr Hen Destament i'r iaith Roeg yn galw duwiau y Paganiaid yn gythreuliaid *(daemons)*. Deut. xxxii. 17,—"Aberthasant i gythreuliaid nid i Dduw; i dduwiau nid adwaenant, i rai newydd diweddar y rhai nid ofnodd eu tadau." Ps. cvi. 37,—"Aberthasant hefyd eu meibion a'u merched i gythreuliaid." Mae yn eglur mai er mwyn cael eu cymmod yr oeddent yn aberthu i'r cythreuliaid yma.

Mae yn eglur oddiwrth ysgrifeniadau Luc, ac ereill yn y Testament Newydd, fod yr Iuddewon yn amser Crist yn credu mai eneidiau dynion wedi marw oedd y cythreuliaid. Dywed yn Phariseaid ym Mathew xii. 24,—"Nid yw hwn yn bwrw allan gythreuliaid, ond trwy Beelzebub pennaeth y cythreuliaid." Cythraul o'r un sylwedd, a natur, raid oeddent yn olygu ydoedd ef, a'r cythreuliaid yr ydoedd efe yn ben neu yn llywydd arnynt, ac

o ganlyniad, dyn wedi marw ydoedd yntau hefyd. Yn 2 Bren. I. 2, 3, 6, 16, cawn mai duw Ecron ydoedd Belzebub; "Ac efe a anfonodd gennadau, ac a ddywedodd, Ewch ac ymofynwch â Belzebub, duw Ecron, a fyddaf fi byw o'r clefyd hwn * * * Ai am nad oes Dduw yn Israel yr ydych chwi yn myned i ymofyn â Belzebub duw Ecron? * * * Fel hyn y dywed yr Arglwydd, Ai am nad oes Duw yn Israel yr ydwyt ti yn anfon i ymofyn a Belzebub duw Ecron? 16, O herwydd i ti anfon cennadau i ymofyn a Belzebub duw Ecron * * * am hynny nis disgynni o'r gwely y dringaist arno, eithr gan farw y byddi farw."

Mae yn sicr fod Ahaziah yn parchu y bod dychymmygol hwn, y pen-cythraul, y *daemon* hwn.

Yn *Farmer on Miracles* cawn hanes pwy oedd y Belzebub hwn, ar y tudal. 133 o'r trydydd argraphiad yn Llundain, gan Johnson, yn y flwyddyn 1810. "Mae Asmodeus (yr hwn yn fynych sydd yn cael ei osod allan fel tywysog ysbrydion drwg, ac yn cael ei gyfrif yr un a Samael a Baalzebub) yn cael ei ddarlunio gan yr Iuddewon yn fab i Nehemiah, chwaer Tubal-Cain. Os gwir hynny, nai fab chwaer i Tubal-Cain ydoedd pennaeth y cythreuliaid. Yr ydoedd rhai o honynt yn dysgcu mai plant Samael, pennaeth y cythreuliaid, ac Efa, cyn i Adda ei chael yn wraig, ydoedd y cythreuliaid: yr oedd ereill yn dywedyd mai Adda oedd eu tad, a Lilith oedd eu mam, a gallai fod rhai yn rhoddi dechreuad gwahanol etto iddynt. Barn gyffredin ydoedd mai plant dirywiedig meibion Duw o ferched dynion a ddarlunir yn Gen. vi., oeddent y cythreuliaid * * * at y rhai hyn yr ychwanegasant eneidiau dynion drwg ereill. Y rhai hyn oeddent y cythreuliaid a'r rhai yr oeddent hwy fwyaf adnabyddus, ac am y cyfryw rai yr oeddent yn llefaru fynychaf.

Yn y xvii. o Actau yr Apostolion, y mae Luc yn rhoddi hanes Paul yn Athen, o'r 16eg hyd ddiwedd 31ain. Ar ol i'r Apostol am ddyddiau geisio argyhoeddi trigolion y dinas o'u heilunaddoliaeth; mae rhai o'r amrywiol bleidiau o'r philosophyddion yn gofyn y naill i'r llall—"Beth a fynnai y siaradwr hwn ei ddywedyd? a rhai, Tebyg yw ei fod ef yn mynegu *duwiau dieithr (xenôn daimonion)* am ei fod yn pregethu yr Iesu a'r adgyfodiad iddynt. Ystyried y darllenydd paham na chafodd y gair *daimoniôn* ei gyfieithu naill ai yn gythreuliaid neu yn ddiaflaid. I'm tyb i yr achos ydoedd fod y cyfieithwyr, er cymmaint eu zel dros fodoldeb y diawl, yn gweled na chaniatai y synwyr ddim iddynt feddwl fod neb yn amcanu addoli diawlaid, ac mai eilunod neu eneidiau dynion da wedi marw raid ydyw ystyr y gair *daimonion*.

Mae Josephus yn dywedyd fod cyfreithiau Athen yn gosod i farwolaeth pwy bynnag a gynnygai ddysgu duwiau newydd iddynt. Mae hyn yn cyfrif paham y dygwyd Paul i'r Areopagus i gael ei brofi yng nghylch yr athrawiaeth newydd hon. Rhyfedd mor anchwiliadwy ydyw trefn rhagluniaeth! O ba le y cymmerodd Paul ei dext? Oddiar eu hallor hwy eu hunain; ar yr hon yr oedd yn ysgrifenedig I'R DUW NID ADWAENIR." Gan hynny nid oedd Paul ddim yn dwyn duwiau newyddion iddynt, ond egluro yr oedd pwy oedd y DUW NID ADWAENIR *(Agnosto Theo* ac nid *Agnosto daimonio)*. Felly yr ydoedd trefn anolrheinadwy Rhagluniaeth wedi ei alluogi ef yn ddiberygl i bregethu iddynt yr unig wir Dduw; ac yn ei annerchiad y mae yn dechreu trwy ddywedyd ei fod wedi eu gweled ym mhob peth "yn dra choel-grefyddol." Yn sicr y mae cam-gyfieithiad

yma; nid ydoedd Paul cyn dywedyd ei dext yn bwriadu i gyffroi rhagfarnau neb yn ei erbyn, trwy ddannod iddynt mai coel-grefydd oedd ganddynt. *Deisidaimonesterous* ddywedodd Luc, ac ystyr hwnnw ydyw eu bod yn ofni y daimoniaid yn anghyffredin; neu eu bod yn anarferol frwd yn eu haddoliad o gythreuliaid, ac nid o'r diawlaid mae yn sicr. Fel hyn, ynte, y mae yn sicr mai addoliad i eneidiau dynion wedi marw, a wnaed gan ddychymmygion ofer dynion anwybodus trwy ychydig o aberthau, seremoniau, a a gweddiau yn dduwiau, i'w haddoli, ydoedd addoliad y paganiaid yn Athen.

Yn ei lythyr cyntaf at y Corinthiaid, y mae Paul yn dywedyd fel hyn yn y 10fed ben., ac o'r 19 hyd yr 22ain ad.—"Beth gan hynny yr ydwyf yn ei ddywedyd? Bod yr eilun yn ddim, neu yr hyn a aberthwyd i eilun yn ddim? Ond y pethau y mae y Cenhedloedd yn eu haberthu, i gythreuliaid y maent yn eu haberthu, ac nid i Dduw. Ni fynnwn i chwi fod yn gyfrannogion a'r cythreuliaid. Ni ellwch yfed o phiol yr Arglwydd, a phiol y cythreuliaid. Ni ellwch fod yn gyfrannogion o fwrdd yr Arglwydd a bwrdd cythreuliaid." Yma etto y mae yn amlwg mai dynion wedi marw, a'u dychymmygu gan yr anwybodus yn dduwiau, ydynt y cythreuliaid hyn.

Er nad ydwyf, Mr. Ymofynydd, yn cymmeryd arnaf fy mod yn deall llyfr y Datguddiad, *nac ychwaith pwy a'i ysgrifennodd*, etto, yr ydwyf yn ei hystyried yn beth cyfreithlawn i mi i ddifynnu o hono air o'm ochr, yn erbyn y rhai ydynt yn ymffrostio eu bod yn hyddysgc ar y ddau bwngc fel hyn:—ix. 20, "A'r dynion ereill y rhai ni laddwyd gan y pläau hyn, nid edifarasant oddiwrth weithredoedd eu dwylaw eu hun, fel nad addolent gythreuliaid, a delwau air, ac arian, a phres, a main, a phrennau, y rhai ni allant weled, na chlywed, na rhodio." xvi. 14,—"Canys ysbrydion cythreuliaid yn gwneuthur gwyrthiau ydynt, y rhai sydd yn myned allan at frenhinoedd y ddaear, a'r holl fyd, i'w casglu hwy i ryfel y dydd hwnnw, dydd mawr yr Hollalluog." xviii.—"Ac efe a lefodd yn groch a llef uchel, gan ddywedyd, syrthiodd, syrthiodd! Babilon fawr honno, ac aeth yn drigfa cythreuliaid, ac yn gadwraeth pob ysbryd aflan, ac yn gadwraeth pob aderyn aflan ac atgas." Yr ydwyf yn foddlon i addef mai eneidiau dynion drwg ydyw y cythreuliaid yn yr adnod hon, ac ni allaf haeru nad cylch Abred "*gwyr Cwm-y-felin** *a Zoroaster*" fydd Babilon ar y dydd hwnnw.

Yn Nghoncordance John Williams, LL.D, yr hwn a gyhoeddwyd yn Llundain 1767, o dan y gair *daimonion*, y mae y sylw hyn:—"*Daemon*, ysbryd nerthol, is na Daw. A all un siampl gael ei dwyn o un awdwr Groegaidd, cyn taeniad Cristnogrwydd, yn yr hon y mae y gair *daimones*, neu *daimonia* yn cael ei arferu i arwyddo rhyw fodau ereill amgen na duwiau y Cenhedloedd? Gwel Mede, Sykes, Wetstein, Lardner, &c. Mae pawb yn galw y rhai ydynt yn ddrwg eu hwyl gan gythraul, yn wallgofion. *Just. Mart. Apolog.*"

Am y cythreuliaid aflan a drwg yn nechreu fy nesaf. Ydwyf, &c.,

J. Jones,

* Gelwir hwynt heddyw Beirdd Cyfrin:—

Beirdd Cyfrin! pen crin a'u cred—yn stwrio
Heb gais i ystyried;
Cosp heb ble efe a fed,
Obry yng nwgaelawd Abred.

Y lle y mae Zoroaster yn anfon yr ynfydion pennaf, neu eu heneidiau anfarwol, sef, yr angylion syrthiedig, hynny ydyw, i'r llyffein, seirff, a chreaduriaid atgas ereill, i ail ddechreu cylch Abred yno.

CENHEDLIAD GWYRTHIOL CRIST.

(*Parhad o tudal.* 203.)

Y MAE'r teg a'r llafurus Dr. Lardner, yn dywedyd mai yngwlad Groeg yr ysgrifenwyd Efengyl Luc, ynghylch y flwyddyn 63 neu 64. Mae'n eithaf adnabyddus fod Luc yn gydymmaeth cysson i'r Apostol Paul; ac yn ol tystiolaeth llawer o'r tadau, yr hyn a ddysgodd Luc gan Paul oedd yr Efengyl a ysgrifenodd. Gan hynny gellir ystyried mai i'r Cenhedloedd yn fwyaf neillduol y cafodd yr Efengyl hon ei ysgrifennu.

Dywedasom o'r blaen nad yw'n debygol iddi gael derbyniad gan, ac efallai ei bod yn anadnabyddus i'r, Cristnogion Hebreig hyd amser maith ar ol ei hymddangosiad yngwlad Groeg. Pan y cafodd, o'r diwedd, ei thaenu yn gyffredinol, yn eu plith hwy, mae'n rhaid, wrth gwrs, ei bod wedi myned trwy lawer o adysgrifiadau, wedi eu gwneuthur oll gan y Cenhedloedd. Pan y cofiom fod, ar yr amser hwnnw, lawer o efengylau ffugiol mewn bodoliaeth, yn passio dan enwau ac arwydd-nodau ffugiol llawer o'r Apostolion, nid rhyfedd pe byddai i ran o efengyl ffugiol gael ei chyssylltu wrth yr un bur, a chymmaint o law ysgrifau yn bod ar y pryd. Yr oedd hyn hyd yn oed yn beth eithaf tebygol, gan fod pob un yn ysgrifenu ei *gopi* ei hun, ac yn arfer ei farn ei hun yn hollol mewn perthynas i burdeb a gwirionedd pob llaw-ysgrif a ddigwyddai ei darllen.

Yn awr er mwyn ymresymiad, gadewch i ni gymmeryd yn ganiattaol fod Efengyl Luc, fel y darfu iddo ef ei ysgrifenu, ar ol y pedair adnod arweiniol, yn dechreu gyda'r drydydd bennod. Barnwn etto fod yr efengyl hon, ynghyd a llawer ereill a gymmerent arnynt fod yn bur, yn gystadl a hwythau yn myned trwy ddwylaw disgyblion cenhedlig brwd a selog; a ydyw yn debygol ynte y buasai iddynt dderbyn yr efengyl hon o eiddo Luc yn *unig*, a gwrthod pob rhan o bob un arall? Gan fod un efengyl yn unig yn dechreu gyda hanes yr Iesu pan oddeutu deng mlwydd ar ugain oed, ond fod ereill yn cynnwys dygwyddiadau cyn yr amser hwnnw, p'un sydd fwyaf tebygol, a barnu ymlaen llaw (*a priori*) y buasai *llawer*, neu *ryw ychydig*, neu na fuasai *neb* i osod o flaen eu llaw-ysgrif hwynt o weinidogaeth gyhoeddus yr Iesu, un neu ragor o'r hanesion am ei ymddygiad dirgel ef, neu o'r digwyddiadau cysylltedig a'i enedigaeth ef? Gadewch fod *un* llaw-ysgrif o'r fath yn bod mewn amser boreu iawn, a ydyw yn debygol, neu nid yw, y buasai i'r rhifedi gael ei luosogi yn fawr iawn? Dylid cofio fod pob annogaeth, sydd a dylanwad ar y meddwl dynol, p'un ai anrhydeddus neu dianrhydeddus, yn effeithioli ar y Cenhedloedd i fod o ochr yr hanesion gwyrthiol am genhedliad, genedigaeth, a mabandod yr Iesu. Y mae'n wirionedd diamheuol mai eu gwrthwynebiad mwyaf i broffesu'r grefydd Gristnogol oedd y cywilydd a deimlent wrth gael eu galw yn "ganlynwyr Iuddew tlawd, isel, anllythyrennog, a chroeshoeliedig." Gyda meddyliau cyffredin, dan y fath amgylchiadau, i ba ochr y byddai i glorian dylanwad y ddwy bennod wyrthiol droi, p'un ai *dros* neu yn erbyn proffes gyhoeddus o'r grefydd Grist'nogol? *Judicibus Vobis*, a chwi yn farnwyr.

Cofier nad oedd gan y Cenhedloedd ddim cyfleusderau i farnu ynghylch gwirionedd neu anwiredd yr hanesion hyn, ond trwy gyfrwng Iuddewon neu Grist'nogion Iuddewig, ac nad oedd yr efengyl hon ganddynt hwy (yr Iuddewon) am hir amser.

Pan, ymhen blynyddau, y darfu i'r efengyl hon gael ei dwyn i'w plith, a'r

ddwy bennod wyrthiol gyda hi, pa fodd yr oeddent i ymddwyn? Gwyddent mai anwiredd oedd y chwedlau plentynaidd hyn; nid oedd ganddynt un ffordd i olrhain y chwedl hyn i'w ffynnon ddechreuol, trwy liaws mawr o law-ysgrifau dirgel; os darfu i'r efengyl gael ei thaenu yn eu mysg fel gwaith un dyn, beth oedd ganddynt i'w wneuthur ond *derbyn* neu *wrthod* y cwbl? Dim arall, yn sicr; nes y caent gyfleusderau i chwilio a didoli.

Y mse yr holl hanes am ymddygiadau y Cristnogion Hebreig ar yr achlysur hwn, wedi cael ei drosglwyddo i ni trwy ddwylaw eu gelynion, cenhedloedd oeddent yn gwahaniaethu oddiwrthynt yn eu barnau, y rhai nid arbedasant eu difrio a'u cablu yn y modd mwyaf anfoneddigaidd a gwenwynllyd. A ydyw'n debygol y buasai i'r cyfryw rai roddi i ni holl brofion a rhesymmau y rhai oeddent yn gollfarnu mor hael; ïe, a rhoddi eu rhesymmau hwynt yn llawn, yn ddiduedd, heb wyrdroi dim o honynt; a ydyw hyn yn debygol, neu nid yw? *Vobis Judicibus;* Bernwch chwi.

Yr ydym yn awr yn dyfod at wirioneddd sylweddol, sef, i liaws mawr o Gristnogion, ar ol cael amser digonol a chyfleusderau i chwilio i mewn i'r peth, wahanu'r ddwy bennod gyntaf o Efengyl Luc (fel y derbynir hi yn awr) oddiwrth y rhan arall o'i efengyl ef. Yr oedd y rhai hyn (Cenhedloedd dylid cofio) yn myned dan yr enw *Marcionites*, *Valentinians*, &c. Mae'n ymddangos eu bod yn lliosog iawn, oddiwrth y cableddau diarbed oeddent yn cael eu harllwys ar eu traws gan y tadau. Ni allasent hwy, modd bynnag, rhif-faeddu eu gwrthwynebwyr iawn-gred hunan-fedyddiedig, a chawsant, mewn canlyniad, ymhen amser, eu hymlid a'u gorthrechu. Am eu rhesymmau a'u profion nis gallwn ddyfod i wybod dim ond trwy gyfrwng eu gwrthwynebwyr, y rhai ydynt yn dywedyd eu bod yn amddiffyn yn wrol mai eu *copi* hwy o Efengyl Luc oedd yr un pur, tra yr oedd eu gelynion yn haeru ei fod wedi ei anafu. Rhaid i ni gan hynny ddyfod ymlaen at ein trydydd dosparth; sef, tystiolaeth fewnol o'r pennodau eu hunain.

Ond cyn dyfod ymlaen at y dosparth hwn, goddefer i mi geisio gan y darllenydd i chwilio'r ddwy bennod gyntaf o Efengyl Luc, yn ol y *copi* derbyniedig (oddieithr y pedair adnod arweiniol) gyda golwg i gael allan p'un a gafodd y ddwy bennod hyn eu hysgrifennu gan wahanol ddwylaw; p'un a oes a cyssylltiad lleiaf rhyngddynt; a ph'un a ydyw'n debygol fod pob un o honynt yn arweiniad i mewn neu ragymadrodd gwahanol, ar ei ben ei hun i ryw un o'r efengylau ffugiol, ar y pryd, mewn cylch-rediad eang iawn.

III. Wrth chwilio'r ddwy bennod gyntaf a gawsant yn ol y dyb gyffredin eu ysgrifennu gan Luc, yr ydym yn cyfarfod a rhai rhannau hyfryd a melus. Y fath ydyw hanes y bugeiliaid, prophwydoliaeth Zacharias, ac araith Simeon. Gan hynny yr ydym yn teimlo ein rhagfarn yn cael ei gyfodi o blaid gwirionedd y pennodau, ac nid heb gyffroadau poenus y gorfodir ni i sylwi ar eu anghyssonderau a'u anghredadwyaeth. Y mae yn rhaid i ni modd bynnag ddiosg ein hunain o bob rhagfarn a chwilio gyda meddyliau teg, agored i argyhoeddiad, a phenderfynol i erlyn a phroffesu y gwirionedd ble bynnag y caffom ef.

1. Pen. i. Cafodd y pedair adnod gyntaf a wahaniaethir fel y gwelwch oddiwth y gweddill, eu derbyn yn gyffredinol a'u cyfaddef fel cyfansoddiad Luc ei hun, gan mai ei ragymadrodd gwirioneddol ef ei hun i'w efengyl ydynt. Y pwngc yw, p'un a oedd ei efengyl wirioneddol ef, ar ol y pedair adnod flaenaf, yn dechreu yn y drydydd bennod; ac yna, p'un a ydyw y cyfan o ddechreuad y 5ed adnod yn y bennod gyntaf hyd ddiwedd yr ail, yn ychwanegiad ai peidio.

2. Dim ond un sylw sydd yn ymddangos i mi yn angenrheidiol ei wneuthur ar y pedair adnod hyn; sef, ar y geiriau—"o'r dechreuad," yn yr ail a'r drydydd adnod. Mewn mannau ereill o'r Testament Newydd, y mae'n ymddangos i mi fod yr ymadrodd—"o'r dechreuad," "yn y dechreuad," yn cyfeirio at ddechreuad yr oruchwyliaeth Gristnogol; sef, dechreuad bywyd a gweinidogaeth gyhoedd Iesu Grist. Y mae y dyb hon yn cael ei chadarnhau i'r eithaf gan ymadrodd Luc. "Megis y traddodasant hwy i ni, y rhai oeddent eu hunain o'r dechreuad *yn gweled* (neu'n llygad-dystion—*eye-witnesses)* ac yn weinidogion y gair." Yn awr y mae'n sicr nas gallasent hwy fod *yn gweled, yn llygad-dystion* o'r ffeithiau sydd yn canlyn. Pwy allasai *weled* yr hyn a osodir i lawr yma am Genhedliad gwyrthiol Crist? Y mae yr un mor sicr etto na ddarfu i neb o honynt ddyfod yn *weinidogion* y gair, hyd nes yr oedd yr Iesu "ynghylch ei ddeng mlwydd ar hugain oed," ac nid oedd y rhan fwyaf o honynt yn adnabyddus a'r Iesu. Y mae'n eglur a phenderfynol, ynte, nas gallasai fod gan Luc ddim mewn golwg ond bywyd cyhoeddus yr Iesu. Yr ol y datganiad hwn, ei fod yn myned i goffau yr hyn oedd wedi ei draddodi iddo gan y rhai oedd yn *gweled,* y mae'n amhossibl meddwl y buasal iddo ddechreu gyda hanes yr hyn nis gallasai neb o'r Apostolion fod yn llygad-dystion, a hanes mor faith; gwendid ac anghyssondeb nas gallasai Luc fod yn euog o honynt.

3. Y mae hyd ddiwedd y 25ain adnod mewn gwrthwynebiad hollol i'r rhagymadrodd; y mae'r pwngc nid yn unig yn gwahaniaethu oddiwrth hanes gweinidogaeth gyhoeddus, ond nid oes un cyssylltiad rhyngddo a hanes a bywyd anghyoedd yr Iesu. Y mae yn coffau neu'n haeru cenhedliad gwyrthiol Ioan. Yr oedd hyn yn sicr yn gymmaint gwyrth a'r hyn a haerir ar ol llaw am Iesu. Yr oedd Zacharias yn teimlo ei fod gymmaint, nes oedd eisiau arno gael prawf y byddai i'r fath ddigwyddiad gymmeryd lle, ac, mewn canlyniad, efe a gafodd, yn ol yr hanes, ei daro'n fud am ei anghrediniaeth.

4. Rhyw ymadrodd hynod yw geiriau'r angel yn y 15ed adnod, am Ioan, "ac efe a gyflawnir a'r Ysbryd Glan, ïe, o groth ei fam." Ni ddarfu i'r fath ddigwyddiad gymmeryd lle erioed o'r blaen; ni ymddangosodd y fath brophwyd erioed cyn hynny. Ac ni chrybwyllir am hyn byth ar ol llaw. Ni ellir dychymmyg am un daioni allasai ddeilliaw oddiwrth y fath wyrth; ac, yn wir, addefir gan yr ysgrifennydd ei hun ei fod yn hollol ddifudd, pan yn dywedyd (adn. 80), "A'r bachgen * * a fu yn y diffaethwch hyd y dydd yr ymddangosodd efe i'r Israel."

5. Adn. 24. Nis gellir rhoddi un rheswm boddhaol am ymddygiad Elisabeth yn "ymguddio bum mis," oblegid, dan ba anair bynnag yr oedd hi o'r blaen, yr oedd achos ei gwradwydd wedi cael ei symmud ymaith yn awr.

6. Adn. 26. Wrth y chweched mis ymae'n rhaid deall, o ymddangosiad yr angel i Zacharias. Yr wyf yn crybwyll hyn yn unig fel nodiad amser. Yn yr un adnod y mae preswylfod Joseph a Mair yn cael ei nodi, sef, Nazareth.

7. Adn. 27. Dywedir yn bendant yn yr adnod hon, mai Joseph oedd o dŷ Dafydd; ac mai morwyn wedi ei diweddio iddo oedd Mair.

8. Adn. 28, 29, 30. Nid oedd y tueddiad lleiaf ynghyfarchiad yr angel i "gythryblu" Mair, na pheri iddi ofni, pa mor synn bynnag oedd ymadrodd yr angel ganddi. Os ymddangosodd fel dyn, yr oedd y cyfarchiad yn hollol foesgar; os fel bod dwyfol, rhaid mai ar y dechreu y buasai ofn arni, ac nid ar ol ei annerchiad tyner a grasol.

9. Adn. 31, 32, 33. Y mae'r addewidion a roddir yma am deyrnas Iesu, naill ai y buasai yn dymhorol neu ysprydol. Os ysprydol, darfu i radd o wybodaeth gael ei roddi i Mair nad yw yn ymddangos ei bod yn feddiannol arno wedi hynny, na neb o ddisgyblion yr Iesu, nes ar ol marwolaeth yr Iesu. Os tymhorol, fel y mae'r ymadroddion, "gorseddfa ei dad Dafydd," a "thy Jacob," yn dangos, yr oedd hyspysiad yr angel i Mair yn anghywir.

10. Y mae'n amhossibl darllen yr 34 a 35 adnodau heb syndod, heb deimlo gweddeidd-dra yn cael ei glwyfo, buais ymron dywedyd, heb atgasrwydd! Beth menyw ieuangc, eisioes wedi ei diweddio, yn defnyddio'r fath ymadrodd! Beth gafodd ei ddywedyd wrthi oedd yn galw am y fath iaith? Pa fodd y gallasai'r fath feddwl ymgynnig iddi? Pan y cawn fy moddhau fwyaf gan ranau neillduol o'r pennodau hyn, ni ddarllenais yr adnod hon erioed heb deimlo arswyd. Yr wyf yn ammeu yn fawr, p'un a all esiampl fwy noeth o gynnig i ochelyd gwrthddadl trwy ei ragflaenu, gael ei dwyn ymlaen, na'r un a ddangosir yma. Y mae iaith yr angel mor ffiaidd fel na chaf gymmaint a sylwi arni er mwyn gweddeidd-dra.

11. Adn. 39. Er mwyn manylder ynghylch amser, yr wyf yn gofyn pa faint a gaiff ei ganiattau am yr ymadrodd—"yn y dyddiau hynny." Ymddangosodd yr angel i Mair yn a chweched mis o Elisabeth." Yr oedd Jerusalem yn daith tri diwrnod o Nazareth. Caniattewch amser i ymbarotoi, &c., ac y mae'n rhesymmol i feddwl na fuasai i Mair gyrraedd yno hyd ddiwedd y chweched mis, neu ddechreu y seithfed.

12. Yr oedd Elisabeth, cares Mair, yn byw, mae'n debyg, yn y mynyddddir, talaith fechan yr ochr arall i Jerusalem, oedd yn dechreu ar bwys Bethlehem. Yn wir nis gallasai fyw lawer ymhellach, gan fod ei gwr yn un o'r offeiriaid, ac yn rhwym o weini yn y deml, yn Jerusalem. Yno, yn y deml, y dywedir i'r digwyddiadau gwyrthiol, a goffeir am dano ef, gymmeryd lle.

13. Adn. 41, 44. Sut y gallasai'r amgylchiad a nodir yn yr adnodau hyn am y plentyn—sef, i'r plentyn ynghroth Elisabeth lammu ar gyfarchiad Mair, gael ei ystyried o bwys mawr gan Elisabeth, nid oes genym ond dychymmyg i'n cynorthwyo. Yr hyn sydd yn ymddangos i mi yn fwyaf hynod yw, fod yr amgylchiad yn cael ei ystyried yn werth ei gofrestru, hyd yn oed pe gallasai yr ysgrifennydd ei gael trwy ryw foddion heb wyrth. A allasai hyn gael ei ysgrifenu gan Luc, canlynwr Paul?

14. Adn. 22. Nid ydym etto wedi cael un hyspysrwydd fod Joseph a Mair wedi priodi; ac yn wir y mae awdwr y bennod fel pe bai am argraffu arnom y meddwl fod y briodas heb gymmeryd lle, gan nad yw byth yn crybwyll am enw Joseph ar ol ymddangosiad Gabriel; ac mae'n ymddangos i Mair gymmeryd y daith hon, i ymweled a'i chares, ei hunan. Pa beth ynte sydd i ni i ddeall wrth yr annerchiad caredig hwn o eiddo Elisabeth, ac yn enwedig, os, yn ol y dyb flaenorol, nad oedd ond dwy neu dair wythnos wedi myned heibio oddiar pan yr ymddangosodd Gabriel i Mair?

15. Adn. 43. Y mae yn beth hynod hefyd fod Elisabeth yn annerch Mair fel "mam ei Harglwydd," yn lle ei chares, ar gyfrif arall, oblegid ei fod yn myned ar y dyb fod Elisabeth yn gwybod mai y Messiah oedd plentyn Mair i fod, yr hyn nid oedd adnabyddus hyd ddeng mlynedd ar hugain ar ol hynny.

16. Adn. 48. Ac nid yw ein syndod yn terfynu yma, o herwydd ymddengys fod Mair hefyd yn gwybod beth oedd ei mab i fod, pan yn dywedyd —"O hyn allan yr holl genhedlaethau a'm geilw yn wynfydedig."

17. Adn. 56. Galwais eich sylw o'r blaen at yr amser, ac yr wyf yn awr yn deisyf yr un peth. Cymmerais yr amser oedd yn ymddangos i mi yn fwyaf têg a thebygol, y darfu i Mair ymweled âg Elisabeth, sef, yn y seithfed mis o feichiogiad Elisabeth; ac os dywedwn i hyn gymmeryd lle yn gynt, yr ydym yn cael ein taflu i ddyryswch mewn perthynas i sefyllfa Mair a gwybodaeth Elisabeth o hono. Os *ar ol* yr amser hwn, yr arhosodd Mair gydag Elisabeth "ynghylch tri mis," gellid meddwl fod yn rhaid fod Ioan wedi ei eni. Os nad oedd wedi ei eni, y mae yn lled anhebygol y buasai i Mair adael ei chares oedranus, ar yr amser yn gymmwys, a myned i bell ffordd, pan oedd yn gwybod yn eithaf da pa fath blentyn pwysfawr oedd hwn i fod, a pha mor agos y cyssylltiad rhyngddo a'i phlentyn ei hun.

18. Nid oes dim a wnelo gweddill y bennod a bywyd na hanes yr Iesu; a chan ei bod yn amhossibl cael allan o un ffynnon arall p'un ai gwir neu anwir ydyw, af heibio iddo heb sylwi dim ond ar y 65 adn. yn unig; sef, nad oedd yr achos lleiaf i "ofn ddyfod ar bawb oedd yn trigo yn eu cylch hwy;" ac os, "cyhoeddwyd y geiriau hyn oll trwy holl fynydd-dir Judea," nid oedd fawr tebygolrwydd y gallasai Ioan fyw mor ddirgel ag y dywedir iddo wneuthur yn adn. 80.

19. Gan fod y pump adnod flaenaf o'r ail bennod o bwys mawr, mewn perthynas i'r pwngc dan sylw, gosodaf hwynt ger bron.

"Bu hefyd yn y dyddiau hynny, fyned gorchymyn allan oddiwrth Augustus Cesar, i drethu yr holl fyd. [Y trethiad yma a wnaethpwyd gyntaf pan oedd Cyrenius yn rhaglaw ar Syria]. A phawb a aethant i'w trethu, bob un i'w ddinas ei hun. A Joseph hefyd a aeth i fynu o Galilea, o ddinas Nazareth i Judea, i ddinas Dafydd, yr hon a elwir Bethlehem (am ei fod o dŷ a thylwyth Dafydd) i'w drethu gyda Mair, yr hon a ddiweddiasid yn wraig iddo, yr hon oedd yn feichiog."

Y mae'r adnodau hyn, yn enwedig y ddwy flaenaf, wedi bod yn sail brysur am hir amser, i wrth-ddadl i'r rhai ydynt wedi bod yn chwilio i mewn i wirionedd yr ysgrythyrau. Y mae Dr. Lardner wedi cyflwyno yn agos i ddau cant tudalen o'i *Credibility of the Gospel History*, i ymdrechu gochelyd grym y gwrthddadleuon hyn, ond y mae'n rhaid i mi gyfaddef nad ydyw yn ymddangos i mi wedi symmud ymaith yr anhawsderau o'r rhan hon. Y gwrthddadleuon ydynt y rhai canlynol.

O.E.

(Yw barhau).

CAPEL ST. SYLVED.

Bu, mae'n debyg ryw oes yn ol, gapel o'r enw uchod ar dir Penyrallt, Llandyssill, Ceredigion. Ychydig os dim o hanes credadwy a ellir roddi am dano yn awr; ond y mae amryw yn fyw yn bresenol, y rhai ydynt yn cofio gweled beddau yn y gladdfa perthynol iddo. Ni welir heddyw ond carnedd gymysglyd yn y fan gysegredig gynt, heb gymaint a chareg fedd yn aros ar ol yn goffadwriaethol o neb o'r ymadawedigion a orweddant yno yn gaeth yn rhwymau angau! Dywedwyd wrthyf gan gyfaill yn y gymydogaeth, i wasanaeth gael ei gynal ym mlaen yn y capel tra parhaodd neb i ddyfod yno i wrandaw. Nis gwn faint o wirionedd all fod yn y dystiolaeth uchod; ond digon tebyg mai felly y bu: os oedd yno wrandawiad lluosog, a daioni yn deilliaw i'r ardal oddiwrth y gwasanaeth, nid tebyg y buasid yn gadael iddo

i adfeilio yng nghanol ei ddefnyddioldeb. O'r tu arall, os nad oedd pobl y gymydogaeth yn teimlo un dyddordeb ynddo, nac mewn canlyniad yn cyniwair i'r addoliad, yr oedd ei dynged bresenol braidd yn anocheladwy. Diau iddo gael ei gynal i fynu cyhyd ag y bu ei eisiau, a phan welwyd nad oedd mwyach yn ateb dyben ei adeilad, gadawyd ef i drugaredd amser. A ellir gwneuthur un casgliad arall?

Wedi darfod y weinidogaeth offeiriadol yn nghapel St. Sylved, yr hyn a gymerodd le o leiaf gan mlynedd yn ol, gan nad faint yn rhagor, cafodd ymneillduaeth y maes iddi ei hun, ac y mae wedi llywodraethu'r gymydogaeth yn ddiwrthwynebiad oddiar yr amser hyny hyd yn awr. Yn yspaid yr amser hwn cafodd yr ardaloedd yma y fraint o wasanaeth gweinidogion dysgedig a llafurus, y rhai ni hudwyd gan arogl y pysgod a'r torthau i aberthu eu cydwybodau ar allorau anwiredd; y rhai a fuont effro gyda'u gwaith mewn amser ac allan o amser; a thrwy eu hymdrechiadau, diau i gymeriad yr ardaloedd mewn dysg a moesau gael ei ddyrchafu i raddau pell iawn, a'i gydmaru â'r hyn oedd yn yr oesau blaenorol. Bydd llawer o'm darllenwyr yn gwybod fy mod yn cyfeirio at y Llwydiaid o Brynllefrith, yr hen Ddafis o Gastellhywel, ac ereill; y rhai, er wedi marw, ydynt yn llefaru etto, a'u coffadwriaeth yn fendigedig, fel gweision ffyddlon rhyddid a gwybodaeth. Ag ystyried cyhyd y mae anghydffurfiaeth wedi ffynu yn y cynteddau yma, yr enwogion lièn a lleyg a fuont yn amddiffyn ei hegwyddorion, yng nghyd â'r rhyddid crefyddol a fwynheir trwyddi, mae genym sail i obeithio ei bod wedi gwreiddio yn rhy ddwfn i gael ei difodi byth mwyach gan unrhyw ymegniadau gwrthwynebol.

Ond mae'n debyg fod y flwyddyn 1853 i dystio un ymgais ychwanegol i adfywio y grefydd wladol yn y parthau yma, trwy ail-adeiiadu capel St. Sylved, nid ar yr un tyle ag o'r blaen, ond mewn man, fel y tybir, mwy cyfleus. Bwriedid unwaith ei adeiladu o fewn dau led cae i'r hen gapel gynt, gerllaw i dafarndy bychan, p'un ai er llwydd neu er lluddias iddo, nis gellir penderfynu yn iawn. Pe buasai'r cynllun hwn yn cael ei gyflawni, buasai yn groes i'r arferiad cyffredin, yr hwn a barodd i Daniel Defoe ganu y penill synwyrlym canlynol:

> "Wherever God erects a house of prayer,
> The Devil always builds a chapel there;
> And 'twill be found upon examination,
> The latter has the largest congregation."

Yn Gymraeg gan yr ysgrifenydd:—

> Lle yr adeilado Duw dŷ gweddi,
> Gwna'r diawl gyfodi ei gapel fynu;
> Ag edrych ar y ddwy gynlleidfa,
> Ceir gwel'd mai eiddo'r diawl sydd amla'.

Gan fod "Syr Diabolos" wedi ynill y blaen yma, buasai yn lled debyg o fyned a'r fuddugoliaeth, oblegid ar y cyffredin hawddach yw amddiffyn nag ymosod. Wedi dechreu cloddio'r sylvaen, a gwneuthur ychydig o ddarpariadau ereill, o herwydd ofn anturio i'r frwydr dan gymaint o anfantais, neu ryw achos arall, penderfynwyd adeiladu y capel newydd yn nyffryn Clettwrfach, ar dir Pantsgawen; ond ni byddai yn rhyfeddod yn y byd i weled ei fawrydi yn gwersyllu gerllaw cyn pen ychydig amser, a thebygol fod y cynllun cyntaf wedi ei gynhyrfa i raddau.

Diameu y gellir codi capel, a sicrhau gwasanaeth offeiriad, ond ffurfio cynnulleidfa sydd fater arall ac anhawddach. A chwilio'r gymydogaeth yn fanol, ni cheir yn bresenol o fewn pellder cyfleus i'r capel arfaethedig uwch tri neu bedwar o bersonau yn proffesu eglwysyddiaeth, a rheiny o'r rhyw fenywaidd, yn ymnesu yn gyflym at ororau y wlad bellenig, ddieithr, o'r hon nid oes un ymdeithydd yn dychwelyd yn ol. Heblaw hyny, pe buasai y rhai ydynt o ogwyddiad eglwysig yn lluosog yn y gymydogaeth, ni buasai un angenrheidrwydd am gapel newydd, am y gallent fyned i eglwys y plwyf, neu i gapel y *Lion Rampant* [nid oes genyf un enw arall iddo], yr hwn sydd ddigon agos i'r neb sydd yn gweled ei grefydd o werth i'w harddel. Mae ugeiniau o Ymneillduwyr wrth fyned i'w haddoldai yn gorfod teithio llawer iawn rhagor o ffordd. Hefyd y drefn fwyaf wylaidd i ledanu'r achos fuasai, yn gyntaf, i beriglor y plwyf ddyfod ei hunan, neu anfon rhyw un arall yn ei le, math o *home missionary*, i bregethu yn achlysurol ar hyd y gymydogaeth; ac, os byddai ei weinidogaeth yn dderbyniol, a llawer yn cael eu proselytio i'r ffydd, *yna*, adeiladu eglwys. Buasai hyn yn foneddigaidd. Beth pe gwelem ryw un o'n cydnabod yn codi buarth, heb fod yn berchen defaid, nac mewn argoel dyfod yn glau, oni buasem yn barod i ddywedyd ei fod yn dechreu o chwith, yn rhyfeddu ei wanc, os nid braidd yn ameu ei onestrwydd?

Os, ie, *os* dyben y sylfaenwyr yw eglwyseiddio'r ardal, a gwneuthur cymod rhwng meddyliau y trigolion â phylafar y Llyfr Gweddi Gyffredin, yr wyf yn credu y gallaf anturio dywedyd eu bod yn ymaflyd mewn gorchwyl Herculeaidd. Amser a ddengys. Ar yr un pryd nid yw yn amhossibl na bydd i yspryd caethiwed, yr hwn sydd yn peri ofn, lywodraethu rhai, a'u gwneuthur yn rhagreithwyr yng ngolwg Duw a dynion, ac y cymhellir ambell un mewn ufydd-dod y mammon i bendrymu yn rhith-grefyddol mewn addoliad eglwysig. Ar ol y cyfryw bersonau, pwy bynag ydynt, ni bydd ond ychydig golled, a llwc dda i'r eglwyswyr o honynt. Ond, paham y sonir am gaethiwed ac ofn? A oes bwriad i osod dynion dan fath o orfodiaeth i fyned i'r capel hwn? Mae rhyw siarad felly, ond heb sail, gobeithio: rhy gywilyddus a chreulon i neb i draws-arglwyddiaethu ar ffydd ei gyd-greaduriaid! a gwyr ein ustisiaid bod yr *Uniformity Act* wedi cael ei dileu.

Gan nad i bwy ddiben y mae'r capel yn cael ei adeiladu, amlwg yw mai ein dyledswydd fel Ymneillduwyr, yw bod ar ddihun, gan gofio'r ddwy linell a ganlyn:—

> "Ymrithio'n angel y mae'r gelyn,
> Ymrwyfo'n ellyn yn ei waith."

Gan fod ymneillduaeth wedi bod mor boblogaidd yn y cynteddau yma am gymaint o amser, heb neb yn beiddio dadleu cywirdeb ei hegwyddorion, gall o herwydd hyny fod rhai o honom yn Ymneillduwyr ar *drust* yn hytrach nag oddiar argyhoeddiad. Os felly, y mae'n bryd i ni edrych ar bwy sail yr ydym yn sefyll, ac i fod yn barod i roddi rheswm dros y gobaith sydd ynom, fel na byddo i'n gwrthwynebwyr gael yr oruchafiaeth arnom.

A ganlyn, yn ol y *Common Prayer*, yw rhan o un o erthyglau ffydd Eglwys Lloegr; "Y mae i'r eglwys *allu* i osod defodau a seremoniau, ac *awdurdod* mewn ymrafaelion yng nghylch y ffydd." Gofynir, pwy roddodd i'r eglwys yr awdurdod hon? Nid Crist, na'r apostolion, ond *Parliament* Elizabeth; a chwedi hyny, *Parliament* Charles II., yr hwn a ddeddfiadodd yr *Uniformity*

Act, yn ol yr hon yr oedd pob gweinidog yn rhwym i broffessu cydsyniad diffuant â threfn a gwasanaeth y *Common Prayer* (yr hwn ei hunan nid yw amgen nag *Act of Parliament)*, neu ynte i ddioddef cosp. Y gyfraith hon a ddaeth i weithrediad ar ddydd St. Bartholomew, Awst 24ain, 1662, pryd y darfu i ddwy fil o weinidogion galluog a chydwybodol roddi fynu eu sefyllfaoedd yn yr eglwys yn hytrach na bod yn fath o *buppets* neu *fashines* crefyddol, trwy newid eu ffydd a'u haddoliad, yn ol fel y byddent yn cael eu hysgogi gan *linynon aur* y llywodraeth. Gofynir etto, pwy mewn gwirioneedd sydd yn meddu yr awdurdod hon? Nid cynulleidfa y ffyddloniaid, y rhai ydynt yn ymgynull at eu gilydd i addoli Duw, gan gredu yn yr Arglwydd Iesu Grist—nid yr esgobion a'r archesgobion—nac, hyd yn oed holl gorph yr offeiriaid mewn cymanfa lawn—ond y brenhin neu y frenhines, prif ben yr eglwys yn ol cyfraith y tir.

Ai nid creadur y llywodraeth gan hyny yn hollol yw'r Eglwys Sefydledig, heb rhyngddi un berthynas â'r hwn a ddywedodd—"Fy mrenhiniaeth i nid yw o'r byd hwn?" Rhaid i bob eglwyswr gredu am Dduw, addoli Duw, yn ol ewyllys yr orsedd; o ganlyniad mater y llywodraeth, ac nid mater cydwybod, yw y grefydd sefydledig. Dywedodd Crist,—"Eiddo Cesar i Cesar, a'r eiddo Duw i Dduw." Mae pob Ymneillduwr yn mabwysiadu'r geiriau, ac yn taeru nad oes gan yr awdurdodau gwladol un hawl i ymyraeth mewn pethau crefyddol, ond mai dyledswydd arbenig pob dyn mewn pethau a berthynant i'w iachawdwriaeth yw darllen, myfyrio, a barnu drosto ei hun, mewn ufydd-dod i Ben Mawr yr Eglwys, yr hwn a ddywedodd—"Chwiliwch yr Ysgrythyrau, a phaham nad ydych, ïe, *o honoch eich hunain*, yn barnu yr hyn sydd gyfiawn."

Y Bibl, a'r Bibl yn *unig*, fel y dywedodd un o amddiffynwyr mwyaf mawrfrydig y diwygiad—y Bibl, a'r Bibl yn *unig*, yw crefydd y Protestaniaid. Ymneillduwyr, adseiniwch y geiriau! ac yspryd yr hen Frytaniaid, ac enwogion dydd dû St. Bartholomew, a nerthol weithio ynoch o blaid rhydd-ymofyniad. Yna er eglwysi a chlochdai, a holl *offeiriaid y byd hwn*, egwyddorion Ymneillduwyr a ant yn y blaen yn gorchfygu ac i orchfygu, nes delo dynolryw oll allan o grafangau caethiwus y deyrn-eglwys i rodio yn y rhyddid â'r hwn y rhyddhaodd Crist hwynt.

YMNEILLDUWR.

Medi 1af, 1853.

ADDURNIADAU A SEREMONIAU Y BRELADAETH YN GROES I SYMLRWYDD YR EFENGYL.

"YR hyn yn nesaf a arddengys allu nefol ac a ddadguddia ddirgelwch dwfn yr efengyl, ydyw symlrwydd pur yr athrawiaeth a gyfrifir yn ffolineb yn y byd hwn, eto yn myned ar draws ac yn dyrysu balchder a doethineb y cnawd. Ac yn mha beth y mae y doethineb cnawdol a'r balchder yma yn gynnwysedig? Mewn bod yn hollol anwybodus o Dduw a'i addoliad? Nage, yn sicr; oblegid mae ar ddynion yn naturiol gywilydd o hyny. Yn mha le ynte? Y mae yn gynnwysedig yn y beiddgarwch hyf o drefn addoliad a gwasanaeth Duw yn ol ewyllys dyn mewn traddodiadau a seremoniau. Yn awr, os ydoedd balchder a doethineb y cnawd i gael eu darostwng

a'u dirymu, yr oeddynt felly yn ddïammheuol yn y fan hono lle yr ydoedd falchaf, ac yn ei dybied ei hun ddoethaf, fel y byddai buddygoliaeth yr efengyl yn fwy ardderchog. Ond y mae ein preladiaid, yn lle dangos gallu ysbrydol eu gweinidogaeth, trwy ryfela yn erbyn y prif wrthglawdd a'r amddiffynfa yma o eiddo y cnawd, wedi myned i gynghrair sicr â'r prif elyn yn erbyn pa un y'u danfonwyd, a throi nerth balchder a doethineb cnawdol yn erbyn symlrwydd pur y gwirionedd achubol.

"Yn gyntaf, yn anobeithio canfod awdurdod eu hurdd yn sefydliad union-gyrchol Crist, neu ei apostolion, trwy dystiolaeth eglur yr efengyl, y maent yn dianc at gynnorthwy cnawdol traddodiad; pan appeliwn ni at y Beibl, hwynthwy at gyfrolau amrosgo traddodiad; ac ni chywilyddiant wrthod ei ordeiniad ef, yr hwn sydd dragywyddol, am anwiredd gwyrdraws un cant ar bymtheg o flyneddau; yn dewis yn hytrach ystyried gwirionedd ei hunan yn gelwyddog, nag fod un oes ar bymtheg yn cael eu cyhuddo o gyfeiliornad, heb ystyried y gwrthgiliad cyffredinol a ragfynegasid, a ffoedigaeth yr eglwys i'r anialwch.

"Ac nid ydyw hyn yn ddigon; yn lle dangos y rheswm am eu sefyllfa isel oddiwrth esiampl a gorchymyn dwyfol, ceisiant brofi eu huchafiaeth uchel oddiwrth gydsyniad ac awdurdod ddynol. Ond gadewch iddynt gôrganu hyd y dewisant am eu hawlfreintiau, dywedwn ni wrthynt am ysgrythyr; am arferiad, ni am ysgrythyr; am actau a deddfau, o hyd am ysgrythyr; nes y bydd y gair bywiol a threiddiol yn myned i fewn at wahaniad eu henaid, a gwendid galluog yr efengyl yn taflu i lawr alluogrwydd egwan rhesymiad dyn. Yn awr am eu hymddygiad o fewn yr eglwys, pa fodd y darfu iddynt anffurfio a hacru y dysgleirdeb mwy nag angelaidd yma, tegwch digwml y grefydd Gristionogol, a gortho twyll o dorynau coelgrefyddol a gwisgiadau seremoniol * * * Dywedwch wrthyf, chwi offeiriaid, paham yr aur yma, paham yr urdd-ddillad a'r gwèn-wisgoedd yma dros yr efengyl? Ydyw ein crefydd yn euog o'r trosedd cyntaf, ac arni eisieu dillad i guddio ei noethni? Beth wna hyn yn amgen na thaflu gwaradwydd ar berffeithrwydd gweinidogaeth Crist, trwy geisio ei haddurno â'r hyn ydoedd feddyginiaeth dlawd ein cywilydd?

"Credwch, ddysgawdwyr mawreddog, mae pob cyffelybrwydd corfforol o sancteiddrwydd a phrydferthwch tufewnol yn awr wedi myned heibio; mae yr hwn a ddillada yr efengyl yn awr, yn arwyddo yn eglur fod yr efengyl yn noeth, yn anmhrydweddol, ac i mi beidio dyweyd yn waradwyddus.

"Peidiwch, chwi y gweithwyr eglwysig, pan y mae Crist yn cuddio ein noethder â gwisg gyfiawn i'n gwneyd yn gymeradwy yn ngolwg ei Dad; peidiwch, fel yr ydych yn gwneyd, a gordoi a chuddio ei wirionedd cyfiawn â dilladaeth halogedig eich seremoniau, i'w wneyd i ymddangos yn fwy gweddaidd yn eich golwg eich hun."—*Milton.*

Doethion Groeg, India, a Phersia.—Saadi, awdwr y gwaith a elwir Gulistan, sydd yn rhoddi hanes am dri o ddoethion, Groegwr, Indiad, ac un o'r Persiaid, a ymddadleuasant ynghylch y cwestiwn—"Pa un yw y mwyaf o bob drygau?" Y Groegwr a ddywedodd, "Henaint yn cael ei wasgu gan dlodi." Yr Indiad a attebodd, "Poen heb amynedd i'w ddwyn." Y Persiad a ddygodd ei dystiolaeth, mai y mwyaf o bob drygau yw, "Marwolaeth heb weithredoedd da o'r blaen."

AR Y GEIRIADAU A FABWYSIADIR YN Y TESTAMENT NEWYDD, AG YDYNT YN DWYN PERTHYNAS I EBYRTH.—RHAN II.

(*Parhad o Tudal.* 218).

YR ydys wedi sylwi yn barod, fod y dyb am aberth wedi cael ei sylfaenu ar y syniadau mwyaf gau ac amharchus am y nattur Ddwyfol; a'r arfer wedi ei mabwysiadu i'r corph o ddefodau Iuddewig, nid o achos fod ynddo un duedd natturiol i effeithio neu i ddiddigio y Duwdod, ond yn unig oddiar ymostyngiad at syniadau ac arferion y bobl i'r rhai yr oedd yn cael ei orchymmyn—nad oedd y cymmodau yn gyffredinol yn cael eu hamcanu fel iawn dros halogrwydd moesol—ac na allem ni heb y gwrthddywediad a'r cymmysgedd mwyaf dybied marwolaeth Crist yn aberth briodol, nac i wir gymmod gael ei wneuthur trwy ei waed. Pe felly, yn wir, y buasai'r peth yn bod; pe buasai ef wedi cael ei ladd megis aberth ar yr allor; pe buasai ef wedi marw trwy ddwylaw offeiriad; pe buasai ei gnawd wedi hyfrydu archwaeth a'i arogl wedi hyfrydu ffroenau Jehofa; pe buasai ei waed wedi cael ei daeneilu ar y drugareddfa, a'i dywallt wrth odre'r allor; ni fuasai gennym un rheswm i gasglu, fod yr Hollalluog wedi cael ei heddychu trwy ei farwolaeth ef, neu wedi cael ei effeithio trwy ei ddyoddefaint i osod heibio y llymder oedd ef wedi ei fwriadu. Rhaid fyddai i'r Testament Newydd gael ei ddeall, megis yn llefaru gyffelyb i'r Hen; ac *mewn dull amhriodol* o hyd yn darlunio y Goruchaf mewn caracter dynol.

Mi gaf barottoi i'r hyn sydd gennyf i'w gynnig, trwy sylwi nad marwolaeth Crist yn un modd yw'r unig wrthddrych, i'r hwn y mae'r ysgrifenwyr sanctaidd wedi cyfleu iaith aberthol. Y mae ysbryd drylliog yn cael ei alw yn *aberth* Duw; Ps. li. 17. A brodyr yr Iuddewon a elwir yn offrwm i'r Arglwydd; Es. lxvi. 20. Y mae St. Paul yn annog y Rhufeiniaid i roddi eu *cyrph* yn aberth byw, sanctaidd cymmeradwy gan Dduw; Rhuf. xii. 1. Ac yn desgrifio ei hun megis *gweinidog*, fel y byddai *offrymmiad* y cenhedloedd yn gymmeradwy; xv. 16. Y mae ef yn galw yr hyn oedd wedi ei dderbyn oddiwrth y Philippiaid, trwy ddwylaw Epaphroditus, yn *arogl peraidd*, aberth cymmeradwy, boddlon gan Dduw; Phil. iv. 18. Talu diolch i'r Hollalluog, gwneuthur daioni a chyfrannu, ydynt aberthau yn y rhai y mae y Goruchaf yn cael ei foddloni. "Y mae y neb sydd yn cadw y gyfraith," medd awdwr Ecclesiasticus, "yn dwyn digon o *offrymmau;* y neb sydd yn glynu wrth y gorchymynion sydd yn *aberthu iechydwriaeth* (neu aberth hedd). Ac y mae yr hwn a dalo ddiolch yn *offrymmu* peilliaid; a'r hwn a roddo elusen, yn *aberthu* moliant. Ewyllys yr Arglwydd yw troi oddiwrth ddrygioni; a *boddloni* (neu boddloniad) yw ymado âg anghyfiawnder;" xxxv. 1—3. "Yr hwn sydd yn anrhydeddu ei dad, a'r hwn sydd yn rhoddi elusen, ydynt yn cael maddeuant (neu yn gwneud cymmod) am eu pechod; iii. 3, 30.

Mi gaf fyned yn mlaen i adrodd yn y iaith fwyaf eglur, yr hyn ydwyf yn amgyffred gafodd ei gyflawni gan ein Harglwydd; ac yn ol hynny i grynhoi y prif olygiadau aberthol, dan y rhai y mae ei weithrediadau yn cael eu desgrifio.

Yn cael ei gyffroi gan egwyddor o garedigrwydd pur, ein Tad nefol a'i hanfonodd ef i'r byd, i gyhoeddi rhad faddeuant anfoesoldeb wedi myned heibio, i bawb a ddeuant yn ddysgyblion iddo, gyda bwriad o ddiwygio, symylrwydd yr hwn fwriad oedd yn cael ei gymmeradwyo gan Adnabyddwr calonau.

Trwy gyhoeddi cyflawn faddeuant holl droseddiadau blaenorol, fel calondid i ufudd-dod rhag-llaw, yr oedd ein Harglwydd yn ail-achos i symmud ymaith y rhwystr oedd rhwng troseddwyr a ffafr y nefoedd. Trwy y rhydd-did, gyda'r hwn yr oedd ef fel pregethwr cyfiawnder, yn ceryddu gwŷdon (pechodau, *vices*) rhagrith, coelgrefyddau ei gydoladwyr; efe a gynhyrfodd, ac a archodd eithaf eu malais; tra yr oedd yn gwybod y byddai i'w barhad ddiweddu mewn merthyrdod. Ym mhellach, efe a roddodd i fynu ei fywyd mewn gobaith am wobr *bersonol;* am gael awdurdod i anfon apostolion, y rhai a bregethent yn ei enw yr athrawiaethau y bu ef farw i'w cynnal: am droad yr holl genhedloedd fel hyn i'r ffydd efangylaidd, ac mewn canlyniad am dynnu ymaith bechodau'r byd. A allwn ni ryfeddu, y buasai i'r

cyd-gyfarfyddiad o'r amgylchiadau hyn mewn un person; yr adferiad o gyfeillgarwch rhwng yr Hollalluog a'i greaduriaid, trwy un a dywalltodd ei waed yn yr achos; i ddwyn i'r Iuddewon y meddyliad o'i ddesgrifio ef dan y ddelw o aberth Lefiaidd? A allwn ni ryfeddu y buasai i bregethwyr crefydd newydd i ddymuno ei chymmeradwyo trwy ei chyffelybu hi mor belled ag oedd bosibl i'r hen?

Rhaid sylwi, pa fodd bynnag, wrth addef effaith addysg, siampl, ac addewidion ein Harglwydd, ar fywydau *rhagllaw* credinwyr: ac y gellir dweud, mewn un ystyr, ei fod ef yn tynnu ymaith bechod, trwy ei rwystro ef: etto na all hyn gael ei gynnwys o fewn i'r meddyliad aberthol. Ni all aberthau gael eu golygu fel rhagattaliadau, ac ni allant gael eu tybied ond yn unig yn dwyn perthyniad i'r hyn aeth heibio. Ac os honnir fod marwolaeth Crist yn cael ei galw yn *bech-aberth*, fel yr oedd yn agor rag-olwg sicr i fywyd i ddyfod, ac yn gweithredu megis annogaeth i ddiwygiad, trwy yr hyn y mae pechaduriaid yn ail-sefydlu *eu hunain* yn ffafr Duw; yr wyf yn atteb fod maddeuant y pechodau aethant heibio yn cael ei ddarlunio yn yr Ysgrythyr megis yn rhydd ac yn ddiammodol, yn anghyssylltedig à gweithredoedd o un rhyw; Tit. iii. 5. Ac nid yw Crist yn cael ei ddarlunio megis yn dyfod yn aberth, yn un ffordd ond trwy y cyfrwng o edifeirwch rhagllaw dynion.

Wedi cael yr amgyffred hawdd a dealladwy hyn, o'r priodoldeb cyffelybiadol gyda'r hwn y mae ein Harglwydd yn cael ei alw yn *aberth;* ni chawn ni fawr anhawsder i ddeall y desgrifiadau a roddir o hono ef, mewn geiriau a fabwysiadir oddiwrth y gyfraith Lefiaidd. Er siampl, fe ddywedir iddo roddi ei hun drosom, yn offrwm ac yn aberth i Dduw, o arogl peraidd. Yma y mae ef yn cael ei ystyried yn y ddau wahanol garacter, o offrymwr ac aberth. Efe a roddodd ei hun i Dduw trwy ymroddi i'w ewyllys ef. Fe'i ddesgrifir ef, nid yn unig megis *aberth*, ond megis offrwm, yr hwn, yn debyg i'r rhai *tanllyd*, a roddai arogl peraidd i'r Duwdod; Lef. i., ii., iii. &c. Trwy hyn nid oes rhagor yn cael ei arwyddo, na bod ei ufudd-dod ewyllysgar ef, hyd yn oed ei farwolaeth, yn y cyflawniad o'i gennadwri, mor dderbyniol gan yr Hollalluog ag ydoedd perarogl poeth-offrwm yn marn addolwyr seremoniol. Pan y dywedir wrthym, iddo ef roddi ei hun *drosom,* yr ydym i ddeall cymmaint ag y mae y geiriau gwreiddiol yn gynnwys, mai er ein mwyn ac er ein lles ni y cymmerodd efe y gorchwyl arno. Nid oes gennym un rheswm i dybied, fod aberthau dan y gyfraith yn cael eu hystyried gan yr ysgrifenwyr sanctaidd, megis dirprwywyr gosoddedig, (neu gyflawnwyr lle ereill), ac ni ellir ddadlu oddiar y Testament Newydd, i Dduw dderbyn marwolaeth Crist yn lle ei greaduriaid troseddol.*

Y mae tri thestun yn ein Testament Newydd Saesneg a Chymraeg, yn y rhai y mae Crist yn cael ei alw yn *iawn,* neu *boddloniad* (propitiation). Yn un o honynt (1 Ioan iv. 10) y dywedir, "Yn hyn y mae cariad, nid am i ni garu Duw, ond am iddo ef ein caru ni; ac anfon ei Fab i fod yn Iawn dros ein pechodau." Yn yr achos hyn, y mae yn amlwg, na ddaeth yr Iesu i ostegu llid y Duwdod, ac mewn canlyniad i'w lidiowgrwydd ef; ond yn y gwrthwyneb, efe a gafodd ei anfon ganddo ef er rhoddi siampl

* Gellir dywedyd, "oni buasai i Grist farw, buasai'n rhaid i bechaduriaid farw." Gwir. Ond oni buasai i Dduw ddanfon Crist, ni allasai ef farw, hynny yw, buasai i Dduw gospi troseddwyr—oni buasai ei fod ef ei hun yn awdwr rheol eu gwaredigaeth; oni buasai iddo faddeu iddynt. Y brynedigaeth sydd yn ddyledus i drugaredd hanfodol Duw; yr hon sydd dyb wahanol iawn oddiwrth y dyb honno, o'i fod ef yn derbyn aberth Crist, yn lle marwolaeth troseddwyr. "Gall ymddangos yn o ddyeithr," medd ysgrifenydd, "os oedd bywyd anifail yn cael ei roddi yn lle bywyd yr offrymydd, na chawsai'r aberthau, yn un lle yn y llyfrau a grybwyllant yn neillduol eu sefydliad hwynt, neu a ymddiddanant mor helaeth am danynt, neu yn y cyfleithiad o honynt, eu galw yn *lutra, antilutra,* neu *antipsucha; cyfartalion, taledigaethau, cyfnewidwriaethau, dirprwywyr;* neu ryw air sydd yn arwyddo rhoddiad bywyd am fywyd; ond iddi gael ei hollol adael i'w chasglu oddiwrth eiriau ag nad ydynt yn angenrheidiol yn arwyddo y fath dyb. Canys yn sicr, nid ydyw na'r geiriau Hebraeg, na'r rhai Groeg, yn arwyddoccäu rhoddi bywyd am fywyd, ond, *rhoi iawn,* cymmodi, boddhau, beth bynnag fydd i'r moddion trwy y rhai yr oedd hyn yn cael ei wneuthur. Ac nid oes neb geiriau eraill, a arferir gan yr ysgrifenwyr sanctaidd, yn dwyn y cyfryw feddyliad i ni, ag a'n galluoga i gasglu mai dyma oedd yr olwg oedd gan eu mheddwl hwy."—*Sykes on Sacrifices.*

o helaethrwydd ei gariad. Gallwn gasglu gan hynny, fod y gair *iawn*, yn ol yr hyn ydym ni yn arferol o ddeall wrtho, yn dwyn meddwl llawer cryfach na meddwl yr apostol. Yn fwy cysson â chyfieithiad yr Hen Destament, gallasai y gair mae ef yn arferu gael ei gyfieithu *cymmod.* Sylwyd, yn y rhan flaenorol o'r traethawd hwn, mai gwneuthur cymmod dros bechod, yn ol yr Hebraeg, oedd ei *orchguddio* ef; ac y mae ein Harglwydd, yr hwn a dywalltodd ei waed er mwyn symmud ymaith halogrwydd *moesol,* yn cael ei alw yma, mewn dull cyffelybiadol o ymadrodd, yn *aberth,* gwaed yr hwn oedd yn cael ei dywallt er mwyn gorchuddio halogrwydd *seremoniol,* neu wneud cymmod drosto. Yr un peth yw meddwl y gair iawn, lle cyfarfyddir ag ef etto yn yr epistol hwn.—Ioan ii. 2.

Yn y lle arall y cyfarfyddir a'r gair hwn—Rhuf. iii. 25.—y gair a ysgrifenwyd gan yr apostol yw hwnnw trwy yr hwn y darfu i gyfieithwyr Groegaidd yr Hen Destament, osod allan *gaead yr arch.* Ac i ddangos mor wahanol weithiau yw'r meddwl a ddygir trwy gyfieithiad oddiwrth feddwl yr un gwreiddiol, y mae caead yr arch hwn, mewn un cyfieithiad, yn dyfod yn *gymmodfa,* mewn un arall, yn *drugareddfa.** Ei ddefnydd yn y tabernacl oedd cynnal y ddau Gerub, ac i ddarlunio troedfaingc i orsedd Duw. Ar hwn yr oedd yr offeiriad yn taenellu gwaed y pech-aberthau, ar ddydd blynyddol wyl y cymmod; ac oddiyma yr oedd yr Hollalluog yn llefaru wrth Moses yr holl bethau oedd yn orchymmyn wrtho i feibion Israel.—Lef. xvi. 14, 15; Ecs. xvv. 22; Num. vii. 89. At y ddau amgylchiad hyn y mae'r apostol yn y testun o'n blaen ni yn cyfeirio, pan y mae yn dywedyd wrthym, "Duw a osododd Grist Iesu (nid yn *iawn,* ond) yn drugareddfa," gyffelyb i honno dan y gyfraith; yn gymmaint a'i fod ef wedi ei daenellu a'i *waed* ei hun, i dynnu ymaith bechodau y rhai a *gredent* ynddo ef; ac yn gymmaint a bod ei berson, megis yn *sefyllfa* oddiar yr hon yr oedd Duw yn llefaru wrth ei bobl, "i ddangos ei gyfiawnder ef trwy faddeuant y pechodau a wnaethid o'r blaen." †

Y mae ein Harglwydd yn fynych yn cael ei gyffelybu i'r arch-offeiriad Iuddewig. Y mae holl bobl Israel yn cael eu galw gan Moses yn frenhiniaeth o offeiriaid; ac y mae Pedr mewn dilyniad iddo ef, yn galw'r corph o grist'nogion yn "offeiriadaeth sanctaidd i offrymmu aberthau ysbrydol cymmeradwy gan Dduw." Gan hynny, ni allem ni ddim synnu, pe bai ein Harglwydd Iesu—heb ddim cyffelybrwydd chwanegol—yn cael ei enwi y pennaf o'r urdd sanctaidd. Ond nid felly y mae'r peth yn sefyll. Y mae'r awdwr at yr Hebreaid yn llafurio i gael allan gyffelybrwydd rhwng yr oruchwyliaeth Iuddewig a'r un Grist'nogol, ac, yn neillduol, yn ymdrechu tynnu cydmariaeth rhwng yr arch-offeiriad â'r Iesu, gyda bwriad i osod allan ragoriaeth yr oruchwyliaeth Newydd ar yr Hen, ac i argyhoeddi'r Iuddewon, o'u bod yn rhwym mewn rheswm i gofleidio Crist'nogrwydd. Gyda'r olwg hon y mae ef yn unig—o'r holl ysgrifenwyr sanctaidd—yn darlunio cyflawniadau'r Iesu mewn traws-ffurfiadau (geiriau cyffelybiaethol, *metaphors)* benthyccol oddiwrth swydd yr arch-offeiriad. Yn gymmaint ag i'r Iesu ddwyn arno ei hun farwolaeth ewyllysgar, wrth gyflawni ei weinidogaeth, ac fel yr ynnillai y bersonol wobrwy o awdurdodi eraill i bregethu maddeuant pechod yn ei enw, fe ddywedir, mewn iaith wedi ei chymmeryd oddiwrth yr hyn oedd yn cymmeryd lle ar wyl y cymmod, iddo ef ddileu pechod trwy ei aberthu ei hun (Heb. ix. 26; vii. 27), ei fod "yn drugarog, ac arch-offeiriad ffydd-

* Ac mewn un arall, sef yr un Cymraeg, yn *iawn.*

† Rhuf. iii. 25. Fel cyfieithiad mwy cywir, yr wyf y cynnyg y canlynol:—"Yr hwn o osododd Duw yn drugareddfa, trwy ffydd, [a] thrwy ei waed ef, [ac] er mwyn amlygiad o'i gyfiawnder [faddeuol drugaredd] ef, trwy faddeuant y pechodau a wnaethid o'r blaen; trwy ddyoddefgarwch Duw." Mi ewyllysiwn gyssylltu *ei waed ef,* nid â *ffydd,* ond â *thrugareddfa,* gan wneuthur adranydd [*comma* (,)] rhwng *pisteos* ac *en* (neu rhwng *ffydd* ac *yn,* neu *trwy).*

Yna yr ymddengys fod tair amgylchiad wedi eu crybwyll, megis yn gwneuthur Iesu yn *drugareddfa.* 1. Ffydd yn y disgybl, heb yr hon ni wneid cymmod dros ei bechod ef. 2. Gwaith Crist yn tywallt, ac yn cael ei daenellu â'i waed [ei hun] yn gyffelyb i wir gaead yr arch. 3. Gwaith Duw yn dangos oddiar, a thrwy ei berson ef, y cyfiawnder oedd i gymmeryd lle, trwy faddeuant pechodau blaenorol.

lon mewn pethau *yn perthyn* i Dduw, i wneuthur cymmod dros bechodau'r bobl;" (ii. 17) iddo "offrymmu un aberth dros bechodau," mewn cyferbyniad i'r rhai oeddent "yn sefyll beunydd, yn gwasanaethu ac yn offrymmu yn fynych yr un aberthau."—x. 11, 12.

Yr ydym yn cael holl gyflawniadau gwyl y cymmod yn arferedig mewn ffordd o gyffelybiad, i ddarlunio marwolaeth Crist a'r llesâd ag oedd hi yn foddion i'w ddwyn. Yr oedd yr arch-offeiriad ar y dydd hwnnw (Lef. xvi.), yn ol dyfod i'r lle sanctaidd ymysg seremoniau craill, yn offrymmu ac yn lladd bustach fel pech-aberth drosto ei hun, a bwch dros y bobl. Yr oedd ef yn dwyn peth o waed pob un o'r ddau greadur hyn, ar wahanol amserau, i'r tufewn i'r llen, i'r cyssegr sancteiddiolaf; yn ei daenellu ar y drugareddfa; ac yn gwneuthur cymmod drosto ei hun, dros ei dŷ, a thros gynnulleidfa Israel. Y cyssegr sancteiddiolaf oedd yn cael ei dybied yn drigfa'r Hollalluog ar y ddaear, wedi ei wneuthur gan Moses yn ol y portreiad a ddangoswyd iddo ar y mynydd, megis cywir a chyfartal ddarluniad o wir drigfa Duw yn y nefoedd. Oddiwrth hyn y mae cymmwysder y cyffelybiaethau canlynol:—"Crist wedi dyfod yn arch-offeiriad y daionus bethau a fyddent, trwy [fyned trwy] dabernacl mwy a pherffeithiach, nid o waith llaw, hynny hyw, nid o'r adeiladaeth yma [meddwl y mae ef, trwy fyned trwy'r *byd hwn*, ar ei ffordd i'r *nefoedd*]. Nid chwaith trwy [â] gwaed geifr a lloi, eithr trwy ei waed ei hun, a aeth unwaith i mewn i'r cyssegr [i'r nefoedd, y gwir gyssegr sancteiddiolaf], gan gael i ni dragywyddol *ryddhad**—Heb. ix. 11, 12. Yn y rhan olaf o'r ymadrodd, y mae'r traws-symmudiad aberthol yn cael ei ollwng i lawr, ac un arall o wahanol berthynas yn cael ei gymmeryd i fynu† trwy'r hwn y mae Crist yn cael ei ddarlunio megis yn pwrcassu dynion gan bechod, ac yn eu gwaredu oddiwrth gaeth-wasanaeth y person dychymmygol hwnnw. "Canys nid i'r cyssegr o waith llaw, portreiad y gwir gyssegr, yr aeth Crist i mewn; ond i'r nef ei hun, i ymddangos yn awr ger bron Duw," megis ag yr oedd yr arch-offeiriad yn ymddangos ger bron y drugareddfa.—adn. 24; iv. 14; viii. 1. Y mae'r Hebreaid yn cael eu darlunio megis yn meddiannu "*gobaith*," yn angor yr enaid, yn ddiogel ac yn sicr, ac yn myned i mewn at yr hyn sydd tufewn i'r *llen*: i'r man yr aeth y rhagflaenor drostynt, sef, Iesu, yr hwn a wnaethpwyd yn arch-offeiriad yn dragywyddol.—Heb. vi. 19, 20.

Pan oedd yr arch-offeiriad yn myned tufewn i'r llen, trwy wneuthur cymmod dros y bobl, fe ellir dywedyd ei fod yn *trefnu eu hachos*, yn cyflawni yr hyn oeddent hwy yn ewyllysio iddo gael ei wneuthur. Ni orchymmynir iddo yn yr ysgrythur i gyflwyno neb deisyfiadau nac ymbiliau tra yr oedd yn aros yn y cyssegr sancteiddiolaf. Oddiwrth hyn gallwn esponio geiriad a arferir gan yr apostol, pan y mae yn dangos rhagoriaeth offeiriadaeth Crist ar offeiriadaeth Aaron. Yr oedd meibion Aaron yn agored i farwolaeth; ond y mae Crist, yn ol ei esgyniad, *yn byw yn dragywydd*, nid i *eiriol*, ond i gyflawni neges ei bobl.

Yma, hefyd, y mae'r ymadrodd yn ymddangos yn cael ei fenthycca oddiwrth rês wahanol o draws-symmudiadau; yn cael ei fenthycca nid oddiwrth yr aberthau, ond oddiwrth lysoedd barn.

Effaith y cymmod Lefiaidd oedd puro'r addolwyr, a'u gwneud yn alluog i nesau i'r tabernacl, heb un cymmod ym mhellach, hyd oni halogid hwy o'r newydd. ‡ Mewn

* Mr. Pierce a Dr. Sykes, yn credu gwirionedd yr athrawiaeth o rag-hanfod Crist, ydynt wedi deongli y *tabernacl nid o waith llaw*, am ei *gnawd*, ei *gorph* ef. Y mae Dr. Sykes yn esponio *nid o waith llaw*, "nid wedi ei wneud yn ol cyfansoddiad cyffredin natur ddynol, ond *trwy gorph wedi ei eni o forwyn*, a chan hynny, *nid o'r adeiladaeth hon*." Ond yr oedd yn sicr yn llawer mwy natturiol yn gystal ag yn fwy dyrchafedig, yn yr apostol, i ddarlunio nefoedd a daear dan gyffelybiaeth dau raniad y tabernacl: y diweddaf o'r rhai (y ddaear) nid oedd o waith llaw, nac o *adeiladaeth* i'w chydmaru a'r un Iuddewig.

† Y mae cyffelyb gymmysgiad traws-symmudiadau i sylwi arno yn y mannau canlynol:—"Wedi ein *cyflawnhau* trwy ffydd, y mae gennym *heddwch* tuag at Dduw."—Rhuf. v. 1. "Y mae gennym *eiriolwr*—ac efe iw'r *iawn* [cymmod]."—1 Ioan ii. 2. "Crist a'n *llwyrbrynodd* oddiwrth *felldith y ddeddf*."—Gal. iii. 13.

‡ Nid yw Lef. xvi. 29—34, yn ymddangos yn cynnwys gorchymmyniad cymmod gwahanol oddiwrth yr hyn a orchymmynir yn y rhan flaenorol o'r bennod; ond yn unig ailroddiad a chadarnhad o'r hyn sydd yn cael ei orchymmyn.—1—19.

cyfeiriad at hyn y mae'r Hebreaid yn cael eu hannerch; x. 19—22, "Am hynny gan fod i ni rydd-did i fyned i mewn," nid i'r cyntedd arferol addoliad, ond, megys cenedl o arch-offeiriaid, "i'r cyssegr sancteiddiolaf," i'r nefoedd, "trwy waed Iesu, ar hyd ffordd newydd a bywiol, yr hon a gyssegrodd efe i ni, trwy'r llen, sef, ei gnawd ef, a bod i ni offeiriad mawr ar dŷ Dduw," yn barod yn y nefoedd i'n derbyn; "nesawn—mewn llawn hyder ffydd; wedi glanhau ein calonau oddiwrth gydwybod ddrwg, a golchi ein corph â dwfr glân." * Y mae corph yr Iesu yn y fan hon yn cael ei gydmaru i'r llen, ag oedd yn neilldu o gwahanol barthau'r tabernacl. Trwy *droi heibio* y naill, gellid cael gollyngiad i mewn i'r cyssegr sancteiddiolaf; a thrwy symmudiad neu farwolaeth y llall, yr oedd ffordd yn cael ei hagor i'r nef ei hun. Yn yr achos hwn, nid yw'r ymadrodd yn anhebyg i un a fabwysiadir gan ein Harglwydd ei hun, "Myfi ywr *drws*: (i gorlan y defaid) os â neb i mewn trwof fi efe a fydd gadwedig."—Ioan x 9. Drachefn yr ydym yn darllain, "wedi ei berffeithio," neu yn gyffelybiaethol, ei gyssegru i'w swydd offeiriadol, trwy ddyoddefiadau, "efe a wnaethpwyd yn awdur iechydwraeth dragywyddol," gwaredigaeth na ellir mo'i galw byth yn ol, oddiwrth ganlyniadau yr hyn a aeth heibio, "i'r rhai oll a ufuddhant iddo."—Heb. v. 9; vii. 25; x. 14. Mewn cyffelyb fodd fe ddywedir, "Trwyddo ef y mae i ni ddyfodfa at y Tad," Eph. ii. 18. "Crist hefyd a ddyoddefodd dros beshodau, fel y dygai ni at Dduw," 1 Pedr iii. 18.

(I'w barhau)

YCHYDIG O HANES BYWYD A PHROFIAD GREFYDDOL JOHN DODESARE HANDY,

Gwas Negroaidd y diweddar William Cock, Ysw., Midhurst Sussex, wedi ei ysgrifenu ganddo ef ei hun ar gais amryw gyfeillion.

Fe'm ganed yn Affrica, ond ym mha rhan o honi nis gallaf ddywedyd, canys fe'm cymmerwyd i oddiyno pan oeddwn yn ifangc iawn. Yr ydwyf yn meddwl nad oeddwn ond pedair blwydd oed pan tynwyd fi oddiwrth fy rhieni, heb wybod iddynt, gan ryw rai o'm cymmydogion, ac fe'm gwerthwyd i long Ffrengig ar yr oror (*coast*). Yr wyf yn cofio yn eithaf da gael fy nodi ar fwrdd llong, ynghyd a llawer yn rhagor. Yr oeddem yn llawn iawn yno, yr oeddwn i yn llefain, ag yr oedd fy ngwmpeini yn alarus iawn. Pan ar y mòr, cymmerwyd ni i long Saesnaeg, a chariwyd ni i Barbadoes, yn y West Indies, lle'm gwerthwyd i eilwaith i Wm. Cock, Ysw., ac fe a'm hanfonodd i at ei frawd, John Cock, Portsmouth, gyda yr hwn oedd mam fy meistr yn byw ar yr amser, yr hwn a serchodd ynof, ac a'm dododd yn yr ysgol nes y dychwelasai fy meistr o'r West Indies.

Ni fuais yn hir yn yr ysgol cyn i fy meistr ddychwelyd i Loegr, a'm cymmeryd i'w dŷ yn y wlad yn Trotton, yn agos i Midhurst, yn Sussex, lle y cefais fy medyddio gan y parch. John Whicher, gweinidog eglwys y plwyf; fy meistr a meistress, a Mr. a Mrs. George Ward, Belle-vue House, yn agos i Cowes, Isle of Wight, oeddent fy nhadau a'm mamau bedydd ar yr achlysur. Mi gefais i gan hynny fy nwyn i fynu i Eglwys Loegr. Fe ddysgodd fy meistr a meistres i mi gatecism yr eglwys ac i ddarllen y Beibl. Yr oeddent yn fynych yn fy ngalw i'r parlwr i gael fy nghlywed yn darllen ac adrodd y catecism.

* Y mae Dr. Sykes yn tybied fod y testun hwn hefyd (Heb. x. 20) yn cyfeirio at *gnawdoliaeth*, yn gystal a marwolaeth Crist. "Megis ag yr oedd yr arch-offeiriad," ebe fe, "i fyned i mewn trwy'r llen, yr hyn sydd yn atteb i'r llen yw cnawd Crist. Efe a *ymgnawdoloddd*, ac a fu farw, fel yr elai o'n blaen ni, ac y dangosai i ni y ffordd i'r gwir gyssegr sancteiddiolaf." Y mae yn ymddangos fod y Dr. yn tybied, i Grist ddesgyn o sefyllfa rag-hanfodol, a myned trwy ei gorph marwol, megis ag yr oedd yr arch-offeiriad yn myned trwy'r agoriad yr oedd y llen yn hongian ynddo. Ond y mae'r ffordd i'r cyssegr sancteiddiolaf yn cael ei darlunio megis yn myned, nid i'r Iesu yn unig, ond i'r holl grist'nogion, trwy'r llen ei gnawd ef. Efe a gyssegrodd yr agoriad *hwn* i bawb yn gyffredin. Ni ddywedir iddo trwy fyned ei hun trwy'r llen, gyssegru [gwahanol] ffordd i ni, ond iddo gyssegru ffordd i ni (yr hon sydd yn myned) trwy'r llen. Gan adael heibio, gan hynny, bob cyfeiriad at *gnawdoliaeth* Crist, gallwn ddeall yr ymadrodd, am ei *farwolaeth* ef *yn unig*; yr oedd gan symmudiad ei *berson* ef, yr un effaith i agor y nefoedd i grist'nogion, ag oedd gan droad y llen heibio, i ollwng yr arch-offeiriad i'r lle sancteiddiolaf. Cydmerwch Pierce ar y lle.

Yr wyf yn meddwl mai fy nyledswydd ydyw rhoddi diolch am y parch mawr a ddangoswyd i mi, ac am eu gofal i'm dysgu i ddarllen fy Meibl, yr hwn sydd wedi bod yn llawer o gyssur i mi trwy'm mywyd, gan fy mod yn cael llawer o hyfrydwch wrth feddwl am Dduw a chrefydd.

Buom yn byw bedair blynedd yn Trotton, wedi hynny symmudasom i dŷ yn y wlad o'r enw Highdown, ym mhlwyf Rogate, yn agos i Petersfield, lle y buom yn byw ugain mlynedd. Pan yno tua'r amser yr oeddwn ynghylch ugain mlwydd oed, daethum ar y cyntaf yn adnabyddus â rhai cyfeillion Cristnogol yn y gymydogaeth, gyda y rhai yr arferais fyned i wrandaw pregethwyr yr Independiaid, ymhlith yr Ymneillduwyr yn Petersfield a Hirling. Ni a barhausom i wrandaw arnynt am gryn amser; ac yr oeddwn yn arfer clywed athrawiaeth y Tri Duw gogyfuwch yn cael ei phregethu i ni.

Ambell waith yr oeddent yn gweddio ar un Duw, wedi'n ar yr ail, a chwedi'n ar y trydydd, a chwedi'n rhoddent i'r tri yr un mawl, fel un, neu dri pherson yn un Duw'r Tri-yn-un. Gwelais fod eu haddoliad yr un peth yn hyn a'r Eglwys Sefydledig, ar yr amser hynny yr oeddwn yn meddwl fod y cwbl yn iawn, ond nis gallwn ei ddeall, ag yr oedd fy meddwl mewn sefyllfa o dywyllwch, pan oeddent yn addoli ambell waith un Duw, ac ambell waith un arall; ac yn awr yr ydwyf yn gwybod eu bod hwynt a'r Eglwys Sefydledig wedi torri y gorchymyn cyntaf; canys Duw a ddywedodd—"Na fydded i ti Dduwiau ereill ond myfi." Oddiwrth yr hyn, y mae'n eglur i mi nad oes dri pherson yn y Duwdod. Ac yn Ysgrythur y gwirionedd mae Crist yn cael ei alw—"yn wir lun ei berson ef;" hynny yw, person Duw, ac nid ei *personau hwynt*; y mae gan hynny yn eglur, nad yw Duw ond un Person. "Bydded Duw yn eirwir a phob dyn yn gelwyddog."

O'r diwedd rhyngodd bodd i Dduw i ddanfon dyn ifange i'n plwyf i weithio, o Godalmin, a'i enw William Ile gweithiwr amaethyddwr, yr hwn oedd yn aelod yn yr eglwys Undodaidd, lle'r oedd Mr. Foster yn weinidog. Y dyn ifange hyn a ddygwyddodd fod mewn ystafell lle'r oedd rhai o'n cyfeillion yn canu un o Hymnau Dr. Watts. Yr Hymn a ganasant oedd yr 51eg o'r ail gyfrol. Wedi iddynt ddarfod canu, gofynodd iddynt a oeddent yn gwybod beth oeddent yn canu—nad oedd gyda Duw neb o'i gydradd, fel y mae'r Ysgrythyr yn dywedyd—"I bwy gan hynny i'm cyffelybwch, ac i'm cystedlir, medd y Sanct?"

Fe ddywedodd wrthynt am chwilio'r Ysgrythyrau drostynt eu hunain; ond ar yr amser hwnw yr oedd dadl gref rhyngddynt hwy ag ef; canys yr oeddynt hwy yn dadleu dros y Drindod ac yntau dros yr Undod: dywedodd wrthynt am ddwyn ymlaen rhyw ran o'r Ysgrythur oeddent yn feddwl oedd yn eu ffafr, a buasai ef yn eu hatteb trwy yr Ysgrythyrau. Nid oeddwn i na'm cydwasanaeth-ddyn, yr hwn a aeth a mi gyntaf i wrando yr Independiaid, gyda'n cyfeillion, ar yr amser y cawsant y ddadl gyntaf a'r dyn ifange; ond cawsom wybod am dani, a'i fod wedi appwyntio amser i gyfarfod â hwynt eilwaith mewn tŷ cyfaill. Ni a gytunasom i fyned i'w wrando ef; pryd y daethum i a'm cyfeillion a rhyw rannau o'r Ysgrythyrau, y rhai yr oeddem yn feddwl oedd yn ein ffafr ynghylch y Drindod; ond yr oedd ef yn gorchfygu y cwbl a allasem ni ddod. Fe roddodd i ni lawer o anesmwythder am na allasem ni roddi atteb i'r dyn ifange, yr hwn oedd fel pe byddai yn gwybod yr Ysgrythyrau o un pen i'r llall. Ni a ddywedasom ein gofid wrth Mr. West, gweinidog yr Independiaid, yr hwn a ddaeth lawer gwaith gyda ni i ddadlu ag ef, a llawer o aelodau'r eglwys a ddaethant gydag ef. Yr oeddent yn dwym iawn, ond yr oedd William Ile yn cadw ei dymer yn glaear ac yn eu hateb i gyd o'r Ysgrythyrau. Yn y diwedd agorodd llygaid ein deall; pryd hyny ni a welsom ac a ddeallsom nad oes ond un Duw, ac un Iesu Grist yr hwn a anfonodd ef.

Y gweinidog a'i bobl, pan y deallasant ein bod wedi gafaelyd yn y gwirionedd mawr hwn, a ddywedasant ei bod yn ddrwg iawn ganddynt ein bod wedi cwympo i'r fath gamsynied mawr. Mae'n dda genyf ddywedyd, er eu bod yn dwym iawn ar eu pwnge na chondemniasant ddim o honom ni i losgfeydd tragwyddol, yr hyn sydd yn rhy aml yn cael ei wneuthur; ond hwy a ddangosasant fwy o yspryd Cristnogol.

Bu y dyn ifange, Wm. Ile, yn ein plith chwech mis. Yr ydwyf yn moli Duw am ei wneuthur yn offeryn i'n troi ni o dywyllwch i'w oleuni rhyfedd ef. Wrth dywyllwch yr ydwyf yn meddwl y Drindod, canys y maent hwy yn dywedyd, mai dirgelwch ydyw; ac os felly y mae, yna y mae yn dywyllwch i ni; ac y mae'r Apostol yn dywedyd—"A hon yw y gennadwri a glywsom ganddo ef, ac yr ydym yn ei hadrodd i chwi; mai *goleuni* yw Duw, ac nad oes ynddo *ddim tywyllwch.*"

Wedi i ni dd'od i'r wybodaeth o'r unig wir Dduw a'n Harglwydd Iesu Grist, yr hwn a anfonodd ef, fe'm bedyddiwyd i, a Wm. Walton, a'm cydwasanaeth-ddyn Keren Russcon, gan Mr. Foster a Mr. Moore, yn eu tŷ cwrdd yn Godalmin, wedi ein argyhoeddi fod bedydd yn orchymyn pendant ein Harglwydd a'i Apostolion, a'n hannog yn ngeiriau'r Ysgrythyr—"i ufuddhau sydd well na phoeth-offrymau."

(*Pw barhau.*)

ATTEB Y BARDD CYFRIN I OFYNIAD J. JONES IDDO, AR *YMOFYNYDD* MEDI; YR HWN OFYNIAD OEDD YN Y GEIRIAU CANLYNOL:—

"Carwn glywed gan y Bardd Cyfrin, pa un o'r wyth Menw yr Indiaid ydyw 'Menw ap Teirgwaedd;' ac os na all ddangos hyny, y mae yn eglur, ei fod wedi profi mai UN o freiniau 'Bardd Braint a Defod' ydyw, cael bod a'i draed yn ryddion o'r Cyffion, ar ol ysgrifenu yr YNFYDRWYDD a welir yn yr 'Ymofynydd' am y Nod Cyfrin."

ANWYL SYR,—Byddaf ddiolchgar i chwi os perwch ymddangosiad y llinellau canlynol ar eich Cyhoeddiad, fel y gwybyddo awdwr y geiriau uchod fy mod gwedi eu gweled, ac wedi eu hateb. Nid wyf fi yn adnabod yr awdwr; ond wrth ei dinc gallwn dybio ei fod yn ddyn annymunol o hunanol a balch, pan feiddiai gollfarnu gyda'r fath ddiystyrwch, bethau nad oedd yn eu hamgyffred.

Pe ymddangosasai y fath sylw oddiwrth rhyw un hyddysg yn hen athroniaeth y Dwyreinwyr, neu y Cymry, buaswn yn teimlo; ond pan yr ymddengys ei sylw-nod fel ynys fechan ar ganol traethawd o'r eiddo, ac sydd yn profi nad yw ei wybodaeth yn y cyfryw athroniaethau, ond tryblith cymysglyd a chamsyniadol, yr wyf yn gallu tosturio wrtho—fel wrth un mewn twymyn—heb fod yn ei adnabod ei hun, nac ereill. Profa ei draethawd, ar yr *Ymofynydd*, lle gwnaeth y sylwnod uchod, na wyr nemawr o ddim, fel y dylai wybod, am gyfundrefn arddunawl yr Indiaid, yn eu hathroniaeth grefyddol; yn nghyd ag ereill o genhedlaethau y Dwyrain. Gwna gam mawr a chysondeb eu golygiadau. Ymddengys fel yn amlwg i mi, ei fod yn perthyn i blaid ag sydd yn amddifad iawn o ysbryd diduedd yr athronydd anianol. Cynghorwn ef i geisio awdwyr mwy diduedd, a mwy hyddysg yn hynafiaethau y Dwyrain, na'r Doctoriaid a enwa, i ddifynu o honynt, cyn yr ysgrifeno nesaf. Awgryma ei waith i mi, na ddarllenodd erioed o waith Champollion, ac ereill, ar y darganfodaethau diweddar yn yr Aipht; a gwaith yr anfarwol Syr W. Jones, Maurice, &c.; yn enwedig cynnyrch y Gymdeithas gyfoethog, dysgedig, llafurfawr, a diduedd, a ymffurfiodd yn Bengal, er gwneuthur ymchwiliad cyniawl a manawl, i holl henafion yr India; ac yn wir holl Asia. Ceisied hwynt; ac at hyny ceisied weithion *Vallency*, *Gori*, *Dupius*, *Bailli*, &c.; ac yn ol y myfyrio ef hwynt, deued gwedi hyny, yn droednoeth, bennoeth, at hen Orsedd Beirdd y Cymry, i ddysgu yr hen GYFRINION—yr allweddau euraidd sydd yn agor i ddirgelwch hynafion y Byd, a'r unig foddion drwy ba rai y gellir cyrhaedd eglurhâd ar holl addysg ffugyrol y Dwyrain, a geir yn y llyfrau uchod; yna bydd yn ddigon o ysgolhaig i allu ysgrifenu ar y pethau y cynyga atynt ar yr *Ymofynydd*—a hyny gydag eglurdeb, ac yn athronydd digon rwysig i siarad ag ef ar bethau ardderchog y NOD.

Pa achos oedd i'r brawd gynhyrfu wrth fy llythyrau, gan eu galw yn *ynfydrwydd?* A dybiodd eu bod gwedi eu bwriadu i gefnogi Trindodiaeth, neu i wrthladd Undodiaeth? Os felly, Pa le'r oedd ei lygad plwm?

Ar un olwg, nid anhawdd genyf esgusodi *J. Jones* am alw fy llythyrau yn *ynfydrwydd;* herwydd, er ys deng mlynedd yn ol, buaswn yn agos iawn o gydolygu ag ef. Ond efallai, mewn gwirionedd, y buasai eu cynnwysiad wrth graffu arnynt, ac ail feddwl, yn peri i mi bwyllo, a pheidio bod yn ry fyrbwyll; fod rhyw beth yn ymddangos yn hynod iawn yn y pwnc.

Ar olwg arall, y mae yn anhawdd genyf ei esgusodi; herwydd gwn nad oedd yn eu deall. Mae ei ddyeithrwch i bethau yr India a'r Aifft, fel y dengys ei lythyr yn yr *Ymofynydd*, yn ddigon i brofi hyny; heb son am y sicrwydd sydd genyf na wyr hen "Gyfrinion" y Cymry. Peth arall, nid oeddwn yn y llythyrau fel y tystiaswn, ond rhoddi cîb olwg ar bethau—dim ond digon i'r doeth a'r deallus i orfod cyfaddef fod rhyw wir yn sicr o fod yn y pwnc, y dadleuid drosto. Ac yn wyneb y llythyrau dysgwyliaswn i *Jones*, fel dyn call, weled hyny, ac nid ymddwyn mor fyrbwyll a'u cyhoeddi yn *ynfydrwydd*.

Mae llawer o ddynion call a dysgedig ereill, yn eu cymeradwyo yn fawr; ac wedi cael eu swyno ganddynt, ac mewn awydd gwybod y dirgelwch. A dyna ddywedai gwr enwog a dysgedig arall, "Er nad oedd yn eu deall, etto (meddai ef) yr oedd, tra yn eu darllen, yn teimlo ei hun fel mewn ryw berlewyg. Ond yn ol barn y cyfaill hwn, *ynfydrwydd* yw y cwbl!

Hen arfer gwedi bod yn y byd, yw galw yr ymadrodd am y GROES a'i dirgelwch, yn ynfydrwydd. Felly, pan feddyliom mai yr hen athrawiaeth wreiddiol a chyntefig am y Groes, ag oedd yn y byd oesoedd ar oesoedd diwybod cyn Cristnogaeth, yw athrawiaeth y NOD CYFRIN; ïe, ac mai hen athrawiaeth wreiddiol a chyntefig y *Logos*, ydyw; nid rhyfedd, efallai, fod y gwr *dysgedig* o *Aberdâr* yn ei galw yn *ynfydrwydd*, yn y dyddiau tywyll hyn. Ond, os derbyniodd y gwr parchedig uchod athrawiaeth y Groes, fel y

dysgai Paul hi, er cymaint fu y dyweud yn ei herbyn, nid rhyfedd fydd genyf os derbyn hi etto yn ei gwreiddiolrwydd syml, fel athrawiaeth y Nod, pan ei gwelo, ac ei dyallo, yn iawn—ac y cyfrifa,gwedi hyny, ei holl ddysg flaenorol, "yn dom ac yn golled er ei mwyn."

Mae y geiriau uchod yn eiriau sobrwydd a gwirionedd; a pban ddelo athrawiaeth y Nod ger y byd, daw *ynfydrwydd*, fy rhai a ysgrifenant yn awr i'w herbyn, "yn amlwg i bawb."

Heb wybod i'r athrawiaeth hon, sef, "Y Gwir yn erbyn y byd," (yr hon athrawiaeth, mewn cyssylltiad a'r Nod, a'r Orsedd, a gadwodd y Cymry, yn ddilwgr, o'r cynfyd) ni ddyalla *Mr. J. Jones*, na neb arall, fyth, athroniaeth gyfrinawl cyfundrefnau crefyddol y dwyrain. Nid athrawiaeth y *Logos*, ag y mae eymaint o swn gwedi bod am dani yn y byd; herwydd nid oedd yr hyn geisiodd *Plato* ei addysgu am dani, ond rhyw gasgliadau, a gweddillion cwbl amherffaith, o honi, yn ei hansawdd wreiddiol gyda'r Cymry; a'r casgliadau hyny gwedi eu cymysgu ganddo â'r llygriad oedd o honi yn aros y pryd hwnw yn yr India a'r Aifft, &c. Dyna oedd ei athrawiaeth ef am y *Logos*. Mabwysiadwyd y gymysgfa hyn o *athrawiaeth y Logos*, ddisgynodd oddiwrth *Plato*, gan *Academiaid Alexandria*; a gwthiodd ei ffordd oddi yno, yn rhai o'i drychfeddyliau i'r Testament Newydd.

Heb wybod athrawiaeth y NOD a'i chyfrinion, ni ddyalla ein cyfaill, na neb arall, fel y dylid eu dyall, y pethau perthynol i Baradwys—y Diluw—dechreuad yr aberthau gwaedlyd a'r rhesymau am danynt—tarddiad defodau yr Hebreaid—Cyfrinach y Proffwydoliaethau, a dirgelwch ffugyrau llyfr Daniel, a'r Datguddiad—llawer o'r cyfeiriadau yn llyfr Job—yn fyr, gesyd hyn yr holl Feibl iddo mewn goleuni newydd, a daw yntau i deimlo ei hun mewn gwirionedd yn ddyn newydd yn ei olygiadau ar bethau.

Yn ol gwybod athrawiaeth y Nod, ni fydd achos i'r brawd ymddyrysu mwy gyda rhyw sylwadau meithion, tywyll, ac ansicr, am ddechreuad Diafol; ond bydd yn gallu arwain i'r *fountain head* ar unwaith; hyd lwybr byr, eglur, a phenderfynol. Caiff bwnc athrawiaeth y Drindod hefyd, er ei dirgelwch oll, mewn perffaith oleuni; a hwnw yn oleuni newydd o'r cynfyd yn rhoi terfyn ar y ddadl, a mil o ddadleuon anorphen ereill.

Ond am y gofyniad a ofyna y gwr parchus i mi, y mae mor hawdd ei ateb a phe gofynasai—pa un o'm bysedd yw bawd fy llaw ddehau; a dyma yr atteb:—Menw cyntaf India, mab Brahma, a mab yr Haul, oedd Menw ap y Teirgwaedd y Cymry.

Yr eiddoch, anwyl Syr,
Y Bardd Cyfrin.

Glan Taf, Medi 12fed.

Hanesion Cartrefol a Thramor.

SWN AM RYFEL.

Y mae'r cwestiynau bychain oll braidd ar y pryd presenol, wedi cael eu llyngcu i fynu gan y cwestiwn mawr dwyreiniol; a'r angenrheidrwydd o beryglu myned i ryfel o achos yr ymrafael rhwng Rwssia a Thwrci.

Y mae amryw gyfarfodydd lluosog a dylanwadol wedi bod eisioes, ac y mae ereill ar gael eu cynnal, yn y prif drefi, gyda'r amcan i alw ar y llywodraeth i fod yn benderfynol yn eu gwrthwynebiad i ymosodiadau treisiol Rwssia. Arwydd arall yw y gostyngiad anarferol yn mhris y *Funds*, mwy na 4 punt y cant.

ARAITH ARGLWYDD J. RUSSELL.

Dydd Llun, y 18fed o Fedi, Arg. J. Russell, yn ei araith yn Greenock, a gyfeiriai at ein helyntion tramor, fel y canlyn: "Yr wyf yn hyderu na chaiff neb o honom anghofio, fod y wlad hon yn dal sefyllfa bwysig yn mysg cenhedloedd y byd—mai nid unwaith, ond llawer gwaith y safodd i fynu i wrthwynebu gormes, i gynnal annibyniaeth gwledydd gwanach, i gadw i deulu dynoliaeth y rhyddid hwnw, y gallu hwnw i lywodraethu eu hunain, o'r hyn yr amcanai cenhedloedd eraill eu hyspeilio. Yr wyf yn hyderu na fydd y bobl i anghofio eu cymeriad hwn, ac na wadant ef ar y pryd presenol, tra y mae ganddynt fwy o foddion, tra y maent yn fwy lluosog a chyfoethog nag y buont erioed o'r blaen. Hwn gan hyny nid ydyw yn amser i ymwadu â'r dyledswyddau hyny tuag at y byd, tuag at holl ddynolryw, pa rai a gyflawnwyd hyd yn hyn mor odidog gan Brydain Fawr.

Bydded i ni eu cyflawni, os yn bosibl, trwy ein dylanwad; os yn bosibl, mewn heddwch a thangnefedd; ond tra yr ymdrechwn i gadw heddwch, myfi yn sicr fyddai yr olaf i anghofio, os nas gellir cadw heddwch mewn anrhydedd, nad yr heddwch hwnw yw heddwch. Rhyw fyr-heddwch (*truce*) peryglus ydyw, yr hwn sydd yn agored i gael ei dori pa bryd bynag y gwelo eraill yn dda, pa bryd bynag y meddyliont fod

yr adeg wedi dyfod yn mha un y gallant hwy wneud a mynu eu gofyniadau oddiarnom ein hunain, neu y galluoedd ydynt mewn cyfeillgarwch á ni. Yr wyf yn hyderu, gyhyd ag y bydd genyf fi ddim i'w wneud yn nghynghorion y deyrnas, mai y cyfryw fydd fy syniadau a'm hymddygiad. Ac yr wyf yn teimlo yn bur ddedwydd yn eich gwaith yn fy anrhydeddu trwy ddangos eich cydsyniad i fy ngolygiadau."

I'r un perwyl yr areithiai Arg. Palmerston ar yr un testun yn Perth a Glasgow.

PRINDER GARTREF AC AR Y CYFANDIR.

Ymddengys fod y cnydau yn ddiffygiol ac yn waelach nag arferol trwy holl wledydd Ewrop. Tywydd drwg gafwyd ar y cyfandir fel yma. Y mae Ffraingc wedi bod yn chwilio Ewrop am rawn ŷd, pan yr oedd gwledydd ereill yn cymeryd mesurau i'r un perwyl; yr hyn sydd wedi bod yn foddion, yn ddiweddar, i godi ychydig ar y farchnad.

Y CHOLERA.

Nid oes unrhyw amheuaeth yn bod, yn bresenol, ynghylch ymweliad y Cholera á'n gwlad. Y mae ol ei drychineb i'w ganfod mor agos attom a Newcastle upon Tyne. Y mae amryw wedi syrthio yn ysglyfaeth iddo mewn lleoedd eraill. Nid yw'r awdurdodau heb fod ar eu gwyliadwriaeth. Y mae y gorchymyn Brenhinol wedi myned allan, i osod y weithred Seneddol a wnaed yn 1848, gyda golwg ar lanhâd trefydd, &c., mewn llawn weithrediad am y chwe' mis dyfodol. Y mae y weithred, ymhlith pethau eraill, yn galluogi dau neu ragor, a fyddont yn rhentu tai, i anfon rhybudd yn ol y cyfarwyddyd a roddir, at bwyllgor iechyd unrhyw dref, yn erchi ar fod i unrhyw dŷ neu le a fyddo yn niweidiol i iechyd, neu mewn sefyllfa i fagu afiechid; i gael ei chwilio, ac i'r feddyginiaeth ofynedig gael ei gweini. Y mae amryw ddarpariaethau eraill ynddi ar gyfer ffosydd budron, a lleoedd y byddo ynddynt wrthodion a phethau ffiaidd eraill oddiwrth ddynion ac anifeiliaid.

Y mae gan yr awdurdodau hawl i orchymyn i dai a fyddont mewu cyflwr afiachus i gael eu glanhau a'u gwyngalchu; ac y mae drwy ar y neb a geisiont attal y swyddogion, neu a anufyddhaont i'r rheolau a roddir iddynt. Y mae hawl hefyd i appwyntio meddygon yn mhob ardal lle nad oes y fath rai yn bod.

Y mae lle i obeithio y bydd y trefniadau hyn yn dra buddiol. Dylai pob dyn roi pob help yn ei allu iddynt, trwy ofalu am lânweithdra, awyriad iachus, a chymedroldeb.

TWRCI A RWSSIA.

Aeth mis arall heibio heb wneud ond ychydig neu ddim tuag at derfynu y ddadl rhwng Twrci a Rwssia, mewn modd heddychol a boddhäol. Y mae yn adnabyddus i'n darllenwyr, nad oeddem ni yn disgwyl nemawr o ddim oddiwrth y gynnadledd a fu yn Vienna. Ac yn awr y mae eu gwaith a'u negeswriaeth rhwng y ddwy blaid wedi troi i maes i fod yn ddim amgen na chymmysgedd o wendid ac anghysondeb a thwyll a gwegi. Cytunwyd ar y *note* yn cynnwys ammodau heddwch ag a wyddid y byddai yn dderbyniol i Rwssia, ac a ddylid gwybod y byddai o herwydd yr un rheswm yn annerbyniol gan Twrci. Wedi i'r *note*, a ffurfiwyd felly, i gael ei derbyn yn gymmeradwy gan Ymherawdwr Rwssia, darfu iddynt ei hanfon at y Sultan, gan ei gynghori i'w derbyn a'i chymmeradwyo; yr hyn modd bynnag nis gwnaeth, ac yn wir, nis gallai ei wneuthur, heb roddi i fynu yn gwbl yr hawliau ag y bu Ffraingc a Lloegr oddiar y dechreu yn ei annog i sefyll drostynt. Ond cytunodd i dderbyn y *note* gyda'r fath ddiwygiadau ag a ystyrid gan ei weinyddiaeth yn anhebgorol gyda golwg ar annibyniaeth ei deyrnas. Yn nesaf, darfu i gynnadledd y pedwar gallu cyfryngol yn Vienna, anfon y *note* wedi ei diwygio felly, at Ymherawdwr Rwssia, gan ei gynghori yntau i'w derbyn gyda chymmeradwyaeth. Ond attebodd Nicholas nas gwnai y fath beth. Ond hyn a wnaeth efe: fe daflodd ymaith y *mask*. Gan nad pwy oedd yn ammau o'r blaen, nid oes un lle i amheuaeth bellach, nad ei amcan ef, yn ei waith yn ceisio i gael ei gydnabod yn amddiffynydd yr Eglwys Roegaidd yn nhaleithiau'r Sultan, ydoedd i gael y fath afael ar y boblogaeth ag a fyddai i'w alluogi i oresgyn Twrci pryd bynag y gwelai amser cyfaddas.

Y mae llywodraeth Prydain, mae'n debyg, o'r diwedd, wedi agor ei llygaid; ac os oes dal ar yr areithiau a draddodwyd yn ddiweddar gan Arg. J. Russell ac Arg. Palmerston, yn Scotland; fe geir gweled, cyn bo hir, p'un oes modd i gadw Nicholas o fewn terfynau, ai nid oes. Y mae yn dost ei bod, wedi'r cyfan, yn rhaid i fyned i ryfel, cyn y gellir "troi yn ôl y ffol i'w ffau." Ac ystyried pob peth, ymddengys ar hyn o bryd, bod rhyfel yn anocheladwy—os nad ydyw wedi dechreu eisioes. A dichon y bydd i'r cwmwl sydd wedi cyfodi yn y Dwyrain, i ymdaenu dros y cyfan o Ewrop—a hyn i gyd o achos trachwant a thrais y Czar o Rwssia!

Bernir y bydd i anghenion ei sefyllfa yn nghyd a brwdfrydedd ei ddeiliaid i orfodi y Sultan i gyhoeddi rhyfel â Rwssia. Y mae yn anhawdd dywedyd beth fydd y canlyniad

yn y pendraw. Ond dywedir fod Ffrainge a Lloegr yn parhau yn eu penderfyniad i amddiffyn y Tyrciaid; a bod gorchymynion mwy pendant i'r perwyl wedi caèl eu hanfon i'w cennadau yn Constaninopl, ac i lywyddion eu llyngesi yn Besika Bay. Y mae yn sicr bod dwy long rhyfel, allan o bob un o'r ddwy lynges, wedi myned i mewn trwy y Dardanelles; ac nid ymddengys fod bellach un rheswm paham na fydd i'r lleill i'w canlyn.

Barddoniaeth.

Y CYNHAUAF.

LLE am y glasaf ddyddia 'nol,
O'ent fryn a dôl dan egin,
Yn awr yn lle eu mentyll gwyrdd,
Gwisg maesydd fyrdd eu melyn;
A thros feithderau'r dirion wlad,
Mor hawdd yw dirnad heddyw,
Y tir wnai'r aradr a'r og
Yn Mawrth mor rhiwiog ledfriw.

O'r bryn lle cenfydd dyn mor falch,
Fawr rin ei galch a'i achles,
Y gwrendy ar y feichiog dda'r
O'i waith rydd hygar hanes;
A gwyr fel geill cymylau lu,
A chawod ddu ar gawod,
Wneud oll o'i wenith, ceirch, a haidd,
O'r pen i'r gwraidd yn falldod.

Y gorau i fesur gallu dyn,
Pwy fel ei hun all ddirnad,
Lwyr ymddibyniad pawb o'r byw,
Ar allu Duw a'i gariad?
Y gwr all gyfrif gwerth y gwlith,
Rydd werth a blith i'r hafod,
Pwy fel efe i ganmol Nêr,
All fod mor bêr ei dafod?

Draw gwelaf lu fu'n crio'n flin,
Am desawg hin a chyson,
Yn awr yn addef dan y tes,
Cant boeth-wres fwy na digon,
Ac er na ddo'nt a'u gwaith i ben,
Ond dan y nen ddigawod,
Os drostynt cwmwl ddaw neu bren,
Mor hyfryd lèn ei gysgod!

Er trymed i *Wy*, *Wysg*, a *Thâf*,
Fu pla yr hâf lifogydd,
Mae etto bwngc i adar man,
A thestyn cân i brydydd;
A chredwn lle bu'r cynar wlaw,
Yn achos braw i'r dyrfa,
Dyg y diweddar gyssur 'nol,
Wna'r llain a'r ddôl yn wynfa.

IEUAN DDU.

AM FARW.

'Gosodwyd i ddynion farw unwaith."—PAUL.

DOETH osodiad Awdwr natur,
Yw marwolaeth—hyn sydd eglur;
A gwynfydig ydyw hwnw
All ddyweud—"I mi mae'n elw."

Myned ydym mewn cyfiymder,
Ar adenydd buan amser;
Nid yw'n heinioes fer ond dyrnfedd,
Rhaid yw marw yn y diwedd.

Heddyw 'rym yn llawn gorwychder,
A'n taer ymgais am wag bleser;
Heno, feallai, Ow, yn welw,
Dan law angau'n farw—marw.

Gad, O ddyn, dy ffol lawenydd,
Paid dirmygu Crist a'i grefydd;
Cofia, cofia daw dydd chwerw,
Dydd cyfynder fydd—dydd marw.

Pam y rhoddwn serch gormodol,
Ar wrthrychau'r byd presenol?
Ceisiwn drysor all ein cadw,
Wrth ogwyddo'n penau i farw.

Bydded ynom ddelw'r Iesu,
Byw yw Ef, er iddo drengu;
Byw fydd pawb sy'n dwyn ei ddelw,
Mewn gwlad well, o gyrhaedd marw.

D. THOMAS.

Cribyn, Mai 19*eg*, 1853.

At ein Gohebwyr, &c.

DERBYNIWYD.— J. Jones; O. Evans; Ymneillduwr; D., Cae-glas; ac Addysg i'r Iefainge.

☞ D.—Nid y'm yn gweled y cymmwysder o gyhoeddi golygiadau Thomas Paine ynghylch adgyfodiad, barn, a bywyd, i ddyfod, &c., heb roddi cyfle i ryw rai o'n Gohebwyr i "ddangos chwithigrwydd y cyfryw," os nid yn yr un rhifyn, o leiaf yn yr un cyfrol o'r YMOFYNYDD; yr hyn nis gellir ar hyn o bryd. Pe buasai ein Gohebydd wedi anfon attom ei sylwadau ei hun ar y pwngc, buasem yn ymdrechu i gael lle iddynt. Nid y'm yn deall fod y Deistiaid presenol yn gosod fawr gwerth ar y cyfryw olygiadau o eiddo Paine.

Addysg i'r Iefainge.—Y mae y Pennillion yn argraffedig eisioes, ac i'w cael ar ddiwedd Llyfr Hymnau eu hawdwr, y Parch. T. Evans, Aberdar.

PEN-Y-BONT ARGRAFFWYD GAN W. LEYSHON.